# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 24AIN TACHWEDD, 2016**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor,**

**Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 17 Tachwedd 2016)

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Edgar Wyn Owen | Craig ab Iago | Annwen Daniels |
| Annwen Hughes | Dilwyn Morgan | Linda Morgan |
| W. Tudor Owen | E. Caerwyn Roberts | Gruffydd Williams |
| | Sedd wag | |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Eric M. Jones | Nigel Pickavance |
| Angela Russell | Mike Stevens |
| Louise Hughes | |

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Endaf Cooke

## Llafur (1)

Y Cynghorydd Glyn Thomas

## Democratiaid Rhydfrydol (1)

Y Cynghorydd Stephen W. Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 22.9.16 fel rhai cywir

**5. CYFEIRIAD Y STRATEGAETH TAI A RÔL Y CYMDEITHASAU** 12 - 26

Ystyried yr adroddiad

**6. EFFAITH Y DIWYGIAD LLES AR DAI** 27 - 31

Ystyried yr adroddiad

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD (2015-2016)** 32 - 56

Ystyried yr adroddiad

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU DYDD IAU, 22 MEDI 2016

**YN BRESENNOL:**

**Y CYNGHORWYR:** Stephen Churchman, Annwen Daniels, Annwen Hughes, Eric M. Jones, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Edgar Wyn Owen, Tudor Owen, E. Caerwyn Roberts, Angela Russell a Gruffydd Williams.

**SWYDDOGION:** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**HEFYD YN BRESENNOL:**

a) Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen - Cynghorydd Dyfrig Siencyn - Aelod Cabinet Diogelwch Cymunedol, Catherine E Roberts (Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol) ar Prif Arolygydd Mark Armstrong (Heddlu Gogledd Cymru)

b) Mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen:

Cynghorydd Mandy Williams Davies - Aelod Cabinet Economi a Chymuned
Cynghorydd Ioan Thomas - Aelod Cabinet Tai ac Amddifadedd, ac Arwel W Owen (Uwch Reolwr Tai)
Cynghorydd Dyfrig Siencyn - Aelod Cabinet Iaith, a Debbie Williams Jones (Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg)
Cynghorydd John Wynn Jones - Aelod Cabinet Amgylchedd, a Gwyn Morris Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol)
Cynghorydd Dafydd Meurig – Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio a Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Rheoleiddio Dros dro)

c) Mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen - Cynghorydd John Wynn Jones - Aelod Cabinet Amgylchedd, Gwyn Morris Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol) a Peter Simpson (Rheolwr Gorfodaeth Stryd)

ch) Mewn perthynas ag eitem 8 a 9 ar y rhaglen - Cynghorydd Dafydd Meurig – Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio, Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Rheoleiddio Dros dro), Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Craig ab Iago, Dilwyn Morgan, Mike Stevens a Glyn Thomas

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 19 Mai 2016 fel cofnod cywir o'r cyfarfod yn ddarostyngedig i gywiro presenoldeb Aelodau yn y fersiwn Saesneg.

**5. DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL**

a) Croesawyd Dyfrig Siencyn (Aelod Cabinet Diogelwch Cymunedol), Catherine Roberts (Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn) a'r Prif Arolygydd Mark Armstrong (Heddlu Gogledd Cymru) i'r cyfarfod.

b) Amlygodd yr Aelod Cabinet bod maes gwaith y bartneriaeth yn un eang a dyrys gyda'r prif nod o gadw ein Cymunedau'n ddiogel. Tynnwyd sylw at yr adroddiad oedd yn olrhain cefndir y gwasanaethau a'r adnoddau, ynghyd â gwaith y bartneriaeth. Nodwyd bod atebolrwydd yn heriol oherwydd bod angen cydweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r Partneriaethau Rhanbarthol. Ategodd bod cydweithio da gyda Môn.

c) Eglurwyd bod gofyn i'r Bartneriaeth adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor yn flynyddol gan gyflwyno trosolwg o brif ddatblygiadau strategol y Bartneriaeth dros y flwyddyn ynghyd a'r gwaith comisiynu sydd yn gosod ffframwaith i'r blaenoriaethau. Mae hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hoblygiadau yn unol ag adrannau Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2006

ch) Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelodau a gyfeiriwyd at y Bartneriaeth yn dilyn cyfarfod paratoi, cafwyd y sylwadau canlynol.

- Ceir di-dreth. Cyfeiriwyd at wefan berthnasol lle y gellid mewnbynnu manylion. Nodwyd mai'r Heddlu oedd yn ymdrin â cheir heb dreth gyda chydweithrediad y DVLA.
- Parcio ceir heb ddefnydd - dim yn ymddangos yn flaenoriaeth i'r Heddlu, ond amlygodd y Prif Arolygydd nad oedd hyn yn gywir a bod yr Heddlu yn cydweithio gyda Gwasanaethau Gorfodaeth y Cyngor a'r DVLA i ddatrys y problemau hyn. Anogwyd yr Heddlu i gydweithio hefyd gyda'r Cymdeithasau Tai
- Argaeledd Plismon Lleol - amlygwyd nad oedd rhifau swyddfeydd yr Heddlu bellach yn cael eu rhannu – hyn yn cael ei weithredu yn ganolog. Cytunwyd bod gwaith papur yn tra arglwyddiaethu'r gwaith plismona, ond bod pob ymgais yn cael ei wneud i wella'r sefyllfa yn lleol. Un o'r gwelliannau hynny yw presenoldeb y PSO's ar ein strydoedd.
- Cynllun OWL (Online Watch Link) - Nodwyd bod oddeutu cost o £30k ar y cynllun a gafodd ei gyllido gan yr Heddlu. Adroddwyd bod y cynllun wedi dod i ben gan nad oedd digon wedi cofrestru gyda'r cynllun a bod cyfryngau cymdeithasol megis *twitter* a *facebook* yn gweithio yn well
- Cynlluniau cefnogi'r blaenoriaethau. Adroddwyd bod 26 cynllun 2015/2016 yn wyrdd, 8 yn felyn ac 1 yn goch. Nodwyd bod nifer o'r cynlluniau melyn wedi eu trosglwyddo i gynllun 2016/2017.
- Galwadau Niwsans. Adroddwyd bod yr Heddlu wedi bod yn cydweithio gyda Adran Safonau Masnach i geisio gwarchod pobl hŷn, bregus. Nodwyd bod teclyn '*truecall*' wedi cael ei hyrwyddo ac wedi bod yn llwyddiannus.
- Mabwysiadau Pwerau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Adroddwyd bod Gwynedd, fel Môn, bellach wedi cwblhau'r broses o fabwysiadau'r pwerau ers Gorffennaf 2016.
- Trosglwyddo Tîm WISDOM (sydd yn cynnwys swyddogion yr Heddlu a'r Gwasanaeth Prawf), i weithio o adeilad y Cyngor ym Mhenrallt. Mae'n

wasanaeth ble mae'r ddwy asiantaeth yn cydweithio yn agos i reoli'r troseddwyr mwyaf peryg yn ein cymunedau. O ran amserlen, y gobaith yw symud y tîm i'r adeilad ym mis Tachwedd.

- Amserlen cyflawni dadansoddiadau anghenion hyfforddi o fewn maes camdriniaeth ddomestig. Adroddwyd bod yr hyfforddiant ar gyfer codi ymwybyddiaeth a derbyniwyd bod yr amserlen, gan Lywodraeth Cymru, yn un uchelgeisiol.

d) Wrth gyfeirio at waith a blaenoriaethau'r Bartneriaeth, amlygwyd bod Cynllun 2016/17 yn anelu i adeiladu ar y gwaith helaeth a ddigwyddodd dros y blynyddoedd diwethaf sydd wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn Trosedd ac Anhrefn yn Siroedd Gwynedd a Môn. Bydd y Cynllun yn canolbwyntio ar feysydd gwaith, yn seiliedig ar yr asesiad strategol, ac ar y canllawiau a'r blaenoriaethau a sefydlwyd gan y Bwrdd Rhanbarthol. Bydd y Bartneriaeth yn parhau i edrych ar feysydd gwaith sydd eisoes wedi'i sefydlu a chyfrannu at feysydd ffocws.

Tynnwyd sylw at brif gerrig milltir y Bartneriaeth oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

dd) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phryderon troseddau rhywiol difrifol, nododd y Prif Arolygydd bod y digwyddiadau sydd yn y newyddion yn ddigwyddiadau hanesyddol. Yng nghyd-destun 'niferoedd', nodwyd bod hyn yn 'arwyddocaol' gan fod nifer y digwyddiadau sydd yn cael eu cofnodi yn awgrymu bod gan bobl ffydd yn yr Heddlu i ddod ymlaen gyda chwyn. Ychwanegodd y Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol bod cynnydd aruthrol yn y gwaith cefnogol dros y 10 mlynedd diwethaf a chynnydd mewn plant ifanc yn adrodd. Ategwyd bod y newid mewn diwylliant i'w groesawu a bod trafodaeth iach o gwmpas y maes yn cael ei gynnal ar lefel rhanbarthol.

e) Croesawyd y Cynllun WISDOM ac yng nghyd-destun yr elfen PREVENT nodwyd bod dyletswydd ar y Cyngor i gyfarch yr anghenion.

f) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â dod a Chynllun OWL i ben, amlygodd y Prif Arolygydd bod angen gwneud defnydd gwell o'r arian a chyrraedd y mwyafrif. Derbyniwyd bod yr adnodd yn un gwerthfawr, ond yn anffodus nid oedd defnydd digonol yn cael ei wneud ohono.

ff) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chynnydd mewn poblogaeth y sir yn ystod Gorffennaf ac Awst a sut roedd y gwasanaethau yn cynllunio ymlaen o ran adnoddau, nododd y Prif Arolygydd bod y gwasanaethau yn ceisio ymateb i'r galw drwy ddefnyddio adnoddau yn wahanol oherwydd nid oedd adnoddau ychwanegol.

g) Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r Aelodau am y sylwadau. Ategodd efallai nad oedd y maes yn cael sylw digonol ac fe awgrymodd yr angen i gynnal sesiwn briffio gyda'r holl Aelodau er mwyn rhannu gwybodaeth sylfaenol am agweddau o'r maes.

Diolchodd yr Aelod Cabinet i'r Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol am ei arbenigedd yn y maes ac i'r gwaith roedd y tîm bychan yn ei gyflawni.

Diolchwyd i'r Aelod Cabinet, i'r Prif Arolygydd a'r Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol am eu cyfraniad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 6. ADRODDIAD TROSOLWG O BERFFORMIAD

Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynwyd adroddiad trosolwg o berfformiad y Cyngor yn canolbwyntio ar Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai, Y Gymraeg a'r Amgylchedd. Amlygwyd bod yr adroddiad yn cyfarch cynlluniau trawsnewidiol y cynllun strategol yn ogystal â thynnu sylw at y mesurau perfformiad sydd yn bwysig i bobl Gwynedd ac yn ganolog i waith dyddiol y Cyngor

i. Maes yr Economi

a. Swyddi gwerth uchel ac o ansawdd - amlygwyd bod prosiect gyda Llywodraeth Cymru i werthu potensial Gwynedd i ddatblygwyr wedi chwarae rhan flaenllaw mewn creu 35 o swyddi gwerth uchel yn y Sir (diffiniad o swydd gwerth uchel yw cyflog £26,500+ ).
b. Tynnwyd sylw at 15 swydd yn NMI Gaming Parc Menai: nifer o gyfleoedd yma a potensial i greu oddeutu dros 200 o swyddi yn y Sir: angen ystyried sgiliau priodol, meddylfryd a bod yn greadigol i geisio'r budd gorau o'r cyfleon hyn
c. Dyraniad proffil gwerth uchel – adroddwyd nad oedd arian yn cael ei dalu tan ar ôl y digwyddiad. Cyfle yma i werthuso faint o gyfleodd mae cwmnïau lleol wedi ei gael i ddarparu bwyd a llety er enghraifft, a'r cyfleoedd o rannu delweddau o'r Sir.

Materion yn codi o'r drafodaeth:
- Nid oes arian i fuddsoddi ac felly angen bod yn greadigol wrth ystyried dulliau gweithredu mewn ardaloedd fel Dwyfor a Meirionnydd. Awgrym y dylai'r Cyngor weithio fel galluogwr - hyn yn her sylweddol. Grantiau ac adnoddau yn prinhau ac anodd yw adfywio economi heb arian - rhaid bod yn arloesol a defnyddio'r arfau ar adnoddau sydd ar gael yn well.
- Twristiaeth yw prif economi'r ardal - nid oes cefnogaeth ddigonol gan y Cyngor i dynnu pobl i mewn
- Cyfarch buddsoddiadau Zip World a Parc Menai, ond siomedig nad oedd cyfeiriad at fuddsoddiad Plas Heli, Pwllheli
- Angen ymestyn y llwybrau cerdded / llwybrau beicio ym Mhenllyn
- Yng nghyd-destun canran cwsmeriaid sydd yn fodlon gyda'r gwasanaeth Amgueddfeydd a Chelfyddydau – awgrymwyd y dylai'r gwaelodlin fod wedi ei osod cyn trafod y toriadau
- Amgueddfa Lloyd George - rhaid ceisio gweithio mewn ffordd wahanol i arbed y gwasanaeth
- Awgrym i addasu geiriad yr adroddiad i adlewyrchu toriadau

ii. Maes Tai

a) Prosiect Cydymdrechu yn erbyn tlodi yn cynnwys dwy flaenoriaeth - tlodi gofodol a thlodi poblogaeth. Nodwyd bod gwaith ymchwil gan y Cyngor wedi adnabod bod 6,500 o gartrefi yng Ngwynedd yn cael eu heffeithio gan y Ddeddf Diwygio Lles. Amlygwyd bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i aelwydydd un rhiant.
b) Agenda Trechu Tlodi - nid yw yn treiddio trwy adrannau'r Cyngor ac felly awgrymwyd gwahodd Penaethiaid, Swyddogion ac Aelodau Cabinet at ei gilydd i sicrhau bod yr agenda yn cael ei cyfarch.

Materion yn codi o'r drafodaeth:
- Tlodi plant - angen treiddio'r broblem i mewn i wasanaethau Cyngor

- Cludiant ôl 16 yn enghraifft o ddiffyg ymroddiad i sicrhau bod plant o aelwydydd tlotaf Gwynedd yn cael addysg uwch
- Calonogol gweld lleihad yn yr amser disgwyl ym maes digartrefedd
- Tai Fforddiadwy – heriwyd y nifer o gartrefi newydd oedd yn cael eu hadeiladu gan awgrymu bod mwy na 31.

iii. Maes Iaith

a) Hyrwyddo'r Gymraeg drwy gefnogi a grymuso pedair cymuned - adroddwyd bod y prosiect wedi bod yn llwyddiannus iawn yn Nolgellau
b) Y Gymraeg ar Gwasanaethau Cyhoeddus - Nodwyd bod y mater ar raglen cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Lleol 23.9.16 lle bydd trafodaeth yn cael ei hysgogi i weld y ffordd orau i hyrwyddo'r Gymraeg.
c) Siarter Iaith - ymateb i'r data lleol a gasglwyd yn cael ei weithredu. Y cynllun yn cael ei ymestyn yn genedlaethol
ch) Cymraeg yn y Cyngor - awdit wedi ei gwblhau. Yr ymateb wedi bod yn galonogol - camau nesaf fydd codi ymwybyddiaeth a hyder pobl mewn defnyddio'r Gymraeg. Trafodaethau i'w cynnal gyda'r Uned Gofal Cwsmer

Materion yn codi o'r drafodaeth:

- Yn dilyn datganiad gan y Comisiynydd Iaith o'r bwriad i beidio cynnal arholiadau ail iaith, amlygodd yr Aelod Cabinet ei fod yn gefnogol i'r datganiad. Yng Ngwynedd y disgwyliad yw i bob plentyn fod yn rhugl yn y Gymraeg ac sefyll arholiad iaith gyntaf.
- Lefelau siaradwyr Cymraeg yng Ngarndolbenmaen yn lleihau - cais gan yr Aelod Lleol i gael ei gynnwys mewn trafodaethau
- Angen i Iaith fod yn pontio gwasanaethau ac nid cael ei gyfyngu i adrannau megis Tai a Chynllunio. Dylai unrhyw faterion Iaith gael eu cyfeirio at yr Aelod Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros Iaith.

iv. Maes Priffyrdd

a) Canran o'r rhagolygon diweddar o ran gwastraff trefol a gesglir bellach yn 62.7% - y nod yw cyrraedd 70% erbyn 2025.
b) Casgliadau 3 wythnos wedi ei weld fel ymarfer da - Conwy bellach yn ystyried treialu 4 wythnos. Amlygwyd bod rhaid i Wynedd fod yn fyw i'r hyn sydd yn bosib

Materion yn codi o'r drafodaeth:

- Cyfarch gwasanaeth newydd o ddidoli gwastraff cymysg yn Canolfan Ailgylchu Rhwngddwyryd - hyn yn effeithiol iawn
- Adran Ymgynghoriaeth – diffyg yn y target net o £160k – angen eglurhad manylach dros y rhesymau

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chais a wnaed i'r Aelod Cabinet (19.5.16) gynnal trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru i bwrpas cynnwys tunelloedd compostio cartref yn y cyfrifiad ailgylchu fel nad yw yn cael effaith ar berfformiad y Cyngor yn erbyn eu targedau, amlygwyd bod yr Aelod Cabinet wedi cysylltu ond heb lwyddiant. Ategwyd y byddai ef a'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet (Llywodraeth Cymru) dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, ym mis Tachwedd.

v. Maes Rheoleiddio

a) Amlygodd yr Aelod Cabinet bod y mesurau yn cael eu monitro a'u herio yn aml
b) Yn unol â chais yr Aelodau, cyflwynwyd adroddiad (mesurydd cludiant THS/007) gan yr Aelod Cabinet. Roedd yr adroddiad yn adrodd ar y sefyllfa o ran pobl anabl llai na 60oed gyda thocyn teithio rhatach ar y bws, ynghyd a beth yw'r sefyllfa yng Ngwynedd a sut mae hyn yn cymharu gyda siroedd eraill. Adroddwyd bod Gwynedd yn cymharu yn ffafriol gyda Chynghorau tebyg (gwledig)

Materion yn codi o'r drafodaeth:

- Diolchwyd am yr adroddiad mesurydd cludiant THS/007
- Awgrym i beidio defnyddio'r term 'cydymffurfio yn fras' yng nghyd destun sefydliadau hylendid bwyd (mesur PAM9 Gwarchod y Cyhoedd). Dylai ynteu ddehongli 'yndi' neu 'nac ydi'.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**

## 7. ARGYMHELLION YMCHWILIAD CRAFFU GORFODAETH STRYD

a) Cyflwynwyd adroddiad yr ymchwiliad craffu Gorfodaeth Stryd i'r Aelod Cabinet John Wynn Jones. Atgoffwyd pawb beth oedd cefndir y briff a rhoddwyd crynodeb o'r gwaith a wnaed gan y Cynghorydd Angela Russell (gan fod y Cynghorydd Annwen Daniels, Cadeirydd yr ymchwiliad wedi gorfod ymadael a'r cyfarfod yn gynnar)

b) Ategodd yr Aelod Cabinet ei ddiolch i'r aelodau am eu hymchwiliad trylwyr, ac wedi ymgynghori gyda sawl un, cydnabuwyd bod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r gwaith.

c) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:

- Bod yr ymchwiliad yn cynnig ymateb creadigol e.e., defnyddio cwmni allanol i osod dirywion fel y gall yr uned fewnol ganolbwyntio ar elfennau megis hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth
- Awgrym y dylai busnesau gyfrannu at gynnal a chadw cylchfannau drwy noddi
- Ymgynghori gydag ysgolion yn allweddol - rhaid addysgu pobl i warchod yr amgylchedd
- Cyfleoedd yma i newid diwylliant

Mewn ymateb, derbyniodd yr Aelod Cabinet yr angen i fod yn greadigol. Adroddwyd bod gwaith codi ymwybyddiaeth da ac ymgyrchoedd llwyddiannus yn cael ei gwneud gan yr Uned Gorfodaeth. Os bydd penderfyniad i ddefnyddio cwmni allanol i osod dirywion, rhaid sicrhau bod pob Cynghorydd yn gefnogol i'r penderfyniad a bod cynllun ymgysylltu, effeithiol mewn lle.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, derbyn yr argymhellion ynddo a cheisio adroddiad yn ôl gan yr Aelod Cabinet mewn tua 6 – 9 mis o'r hyn sydd wedi ei gyflawni yn dilyn yr argymhellion.**

## 8. ADOLYGIAD CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY

a) Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet yn adrodd ar y bwriad i adolygu a diweddaru'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a chael mewnbwn dechreuol gan y Pwyllgor ar y broses. Eglurwyd bod Deddf Cefn Gwlad Hawliau Tramwy 2000

yn gosod dyletswydd ar awdurdodau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Ategwyd bod gofyn statudol i adolygu'r cynllun bob 10 mlynedd a bod Gwynedd angen cynnal adolygiad cyn Tachwedd 2017.

b) Amlygwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i Awdurdodau Lleol sydd yn egluro'r drefn a'r camau sydd i'w cymryd ar gyfer cynnal adolygiad ynghyd â pharatoi cynllun newydd. Rhaid i'r Awdurdod ystyried pwrpas a defnydd y Cynllun fel dogfen sydd yn cwmpasu dyletswyddau'r Awdurdod ac yn gosod blaenoriaethau ym maes hawliau tramwy a mynediad ar droed, beic a marchogaeth.

c) Ers cyhoeddi'r cynllun yn 2007, adroddwyd bod newidiadau mawr wedi dylanwadu ar y maes, megis toriadau mewn cyllidebau at waith cynnal y rhwydwaith o lwybrau, dyfodiad a dylanwad deddfwriaethau newydd sydd yn gorgyffwrdd a'r maes mynediad, ynghyd a thwf cyffredinol yn y galw am lwybrau a chyfleusterau mynediad o safon uchel a chydnabyddiaeth o'u pwysigrwydd i'r diwydiant twristiaeth.

ch) Gofynnwyd i'r Pwyllgor gytuno bod angen a chyfiawnhad dros baratoi cynllun newydd ar gyfer Gwynedd ynghyd a bod yn gefnogol i'r bwriad o adolygu'r cynllun.

d) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â rhwydwaith y Sir, nododd Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd bod y cynllun presennol yn blaenoriaethu'r llwybrau poblogaidd ac felly'r adnoddau yn cael eu rhoi yma. Ategwyd y byddai adolygiad yn rhoi cyfle i Wynedd ail edrych ar y blaenoriaethau o safbwynt cynnal y rhwydwaith yn hytrach na blaenoriaethu'r rhai poblogaidd. Ychwanegodd mai tasg werthfawr fyddai adolygu'r cynllun.

dd) Mewn ymateb i sylw ynglŷn â hawliau mynediad cyfartal i bawb, adroddodd y byddai'r Ddeddf Hawliau Cyfartal yn cael ystyriaeth fel rhan o'r adolygiad ac y bydd asesiadau cydraddoldeb angen eu gweithredu.

e) Mewn ymateb i sylw ynglŷn â'r posibilrwydd o gydweithio gyda'r Parc Cenedlaethol er nad yw'n ofynnol i'r Parc fod yn rhan o'r adolygiad, nodwyd bod trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda'r Parc ers tua 18 mis. Er nad yw yn statudol i'r Parc gynhyrchu cynllun, yn ymarferol byddai yn gwneud synnwyr i sefydlu cynllun a fydd yn cwrdd ag anghenion y Cyngor a'r Parc. Ychwanegwyd ond bod y Parc yn cefnogi'r egwyddor o baratoi Cynllun ar y cyd. Cydnabuwyd yr angen i drafod adnoddau a chyllid, ond gyda'r angen am wybodaeth arbenigol am rwydwaith y Parc, awgrymwyd, drwy gydweithio, y byddai'r cynllun yn fwy cadarn ac ymarferol.

f) Mewn ymateb i sylw ynglŷn â sut bydd llwybrau yn cael eu blaenoriaethu ac yr angen i ystyried adnoddau lleol i gadw llwybrau yn agored, adroddwyd na fyddai'r cynllun newydd yn rhoi manylder ar lwybrau penodol, ond yn edrych ar roi fframwaith yn ei le ar gyfer blaenoriaethu gwaith gan geisio sicrhau trefniadau gweithredu effeithiol.

ff) Yn ystod y drafodaeth nodwyd y sylwadau canlynol:

- Beth yw maint y rhwydwaith? A oes modd canolbwyntio ar y rhai sydd yn cael eu defnyddio fwyaf?
- Derbyn bod angen cynnal adolygiad, ond gofal ar sut i weithredu
- Nid oedd adnoddau digonol yn 2007, felly beth fydd y sefyllfa yn 2016?

- Rhaid buddsoddi mewn adnodd sydd ei angen i'r dyfodol - pwysig i'r diwydiant twristiaeth
- A oes modd denu adnoddau o ffynonellau eraill?
- Angen gweld Bioamrywiaeth yn cael ei gynnwys yn y trafodaethau

Amlygwyd y byddai unrhyw fuddsoddiadau a gwelliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwy yn debygol o fod yn gwbl ddibynnol ar arian grant.

Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr argymhelliad

**PENDERFYNWYD:**

**a) bod y Pwyllgor yn gefnogol i'r bwriad o adolygu a pharatoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy i Wynedd a bod yr Adran Rheoleiddio yn adnabod dulliau o ddod ac adnoddau ynghyd ar gyfer y gwaith.**

**b) bod yr Adran yn cysylltu gyda Llywodraeth Cymru i bwyso arnynt i gyllido'r adolygiad.**

**c) Bod yr Aelod Cabinet yn cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Pwyllgor Craffu mewn oddeutu 6 mis**

**9. BRIFF YMCHWILIAD CRAFFU - Y DREFN CYNLLUNIO**

a) Cyflwynwyd brîff ar gyfer cynnal ymchwiliad craffu ar y drefn gynllunio i ystyried cyfundrefnau cynllunio'r Cyngor a'u haddasrwydd ar gyfer cyd-fynd ag anghenion cymunedau'r Sir yn economaidd, yn ogystal â ffactorau eraill.

**PENDERFYNWYD derbyn y briff**.

Enwebwyd yr Aelodau canlynol i wasanaethu ar yr ymchwiliad: Y Cynghorwyr Eric M Jones, Angela Russell, Gruffydd Williams a Tudor Owen.

Awgrymwyd anfon neges i'r Aelodau oedd yn absennol er mwyn rhoi cyfle iddynt enwebu eu hunain.

**10. BLAEN RAGLEN CRAFFU 2016 - 2017**

a) Cyflwynwyd blaen raglen waith y Pwyllgor am 2016 - 2017

**Derbyniwyd y wybodaeth.**

| | |
|---|---|
| Teitl: | Cyfeiriad y Strategaeth Tai a Rôl y Cymdeithasau |
| Dyddiad: | 24 Tachwedd 2016 |
| Pwrpas y Papur: | Er gwybodaeth ar gyfer Pwyllgor Craffu Cymunedau |

## 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn wedi ei rannu i ddau ran, y cyntaf yn edrych ar flaenoriaethau Strategaeth Partneriaeth Tai Gwynedd ar gyfer 2013-17 ac rôl y Cymdeithasau Tai mewn cyflawni hyn ac yr ail ran yn edrych ar materion fydd angen eu cyfarch wrth adolygu y Strategaeth ar gyfer y cyfnod nesaf o 2017-21.

Mae rhan gyntaf yn bapur yn rhan o adroddiad a gyflwynwyd i'r Bartneriaeth Tai Gwynedd er mwyn blaenoriaethu gweithgareddau yn ystod cyfnod gweddillol y Strategaeth Tai o 2015-17.

### 1.1 Strategaeth bresennol a Rhaglen Llywodraeth Cymru (LLC)

Ceir copi o'r Strategaeth isod:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholisïau/Tai/Strategaeth-Tai-Partneriaeth-Gwynedd-2013-17.aspx

yn ogystal, ceir linc i raglen LLC ar gyfer y 5 mlynedd nesaf:

http://gov.wales/about/programme-for-government/?skip=1&lang=cy

## 2. Blaenoriaethau'r Strategaeth sydd yn berthnasol i'r Cymdeithasau Tai

Mae'r isod yn ceisio crynhoi gweithgareddau cydweithio rhwng y Cyngor a Chymdeithasau Tai sydd yn berthnasol i'r Strategaeth Tai, nid ydynt wedi eu rhestr yn ôl blaenoriaeth

### 2.1 Blaenoriaeth 1: Cyflenwad a Fforddiadwyedd

Yr hyn rydym yn anelu i'w gyflawni yn ein Strategaeth yw:

- rhoi dewis i bobl allu byw mewn cartrefi sy'n addas ar eu cyfer o ran fforddiadwyedd a mathau gwahanol o ddaliadaeth


Canlyniad yr anelir ato drwy wireddu'r Strategaeth hwn yw bod:


- gwell mynediad i dai fforddiadwy, i'w perchen a'i rhentu
- mwy o gyflenwad o dai addas ar gael yn y Sir

## 2.2 Cyflenwad

Mae’ r Cymdeithasau Tai yn darparu cartrefi newydd fel y dangosir isod:

**Cynlluniau wedi eu cwblhau**




Gweler bod cynnydd yn nifer o unedau ac felly nifer o bobl sydd wedi eu cartrefu yn 2014-15,roedd hyn oherwydd bod 42 o unedau Tai Gofal Ychwanegol wedi eu darparu yn y flwyddyn honno ar gost o £7.8m. Yn ychwanegol, rhyddhawyd 16 tŷ cymdeithasol, sydd heb eu cyfrif yn yr uchod, wrth i bobl hyn symud o gartrefi cymdeithasol oedd yn rhy fawr iddynt i fflat 1 neu 2 stafell wely gyda gofal os dymunir.

### 2.3 Cyllido datblygiadau newydd

Mae'r uchod yn cael ei ariannu drwy grantiau gan LLC, gellwir hwn yn Grant Tai Cymdeithasol (GTC). Y Cyngor sydd yn penderfynu blaenoriaethau strategol y datblygiadau hyn. Mae'r tabl isod yn dangos cyfran y grant sydd yn dod i Wynedd yn ôl blwyddyn.

Ymrwymiad GTC hyd at :-

| | **14.15** | **15.16** | **16.17** |
|---|---|---|---|
| Gwynedd | *£1,435,534 | *£1,435,534 | £1,435,534 |

*Arian wedi ei neilltuo ar gyfer datblygiad Tai Gofal Ychwanegol
Mae'r uchod yn cyfrannu 58% o gostau adeiladu'r cynlluniau gyda'r Cymdeithasau Tai yn benthyca 42%.

Dyma restr o'r ardaloedd datblygwyd ynddo:

| **Blwyddyn/ Year** | **Cymdeithas Tai/ Housing Assoc** | **Lleoliad / Location** | **Nifer Unedau/ no. of units** | **Cyfanswm cost y Cynllun/ total sheme cost** |
|---|---|---|---|---|
| 2013-14 | Grŵp Cynefin (GC) | Ger y Nant, Felinheli | 12 uned | £966,318 |
| | Grŵp Cynefin | Cae Solomon, Pwllheli | 8 uned | £790,808 |
| | CTGC | Hen Ysgol, Llanrug | 7 uned | £782,000 |
| | CTGC | Caernarfon Road, Bangor | 1 uned | £183,000 |
| | Grŵp Cynefin | Cynllun Cymorth Prynu amrywiol leoliadau drwy'r Sir<br>Various Home buy schemes in the County | 5 uned | |

| **Blwyddyn/ Year** | **Cymdeithas Tai/ Housing Assoc** | **Lleoliad / Location** | **Nifer Unedau/ no. of units** | **Cyfanswm cost y Cynllun/ total scheme cost** |
|---|---|---|---|---|
| 2014-15 | CTGC | Bistro Llanberis | 9 | £661,500 |
| | Grŵp Cynefin | Gerddi Pendre Tywyn | 17 | £1,631,692.72 |
| | Grŵp Cynefin | Tai Huw Llwyd, Llan Ffestiniog | 4 | £554,400 |
| | CTGC | Cae Garnedd, Bangor | 42 | £7,734,500.00 |
| | Grŵp Cynefin | Cynllun Cymorth Prynu amrywiol leoliadau drwy y Sir | 3 uned | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Various Home buy schemes in the County | | |
| | Grŵp Cynefin | St Pedr, Pwllheli | 8 uned | £683,000 |
| | Grŵp Cynefin | Tyddyn Pandy, Caernarfon | 4 uned | £574,997 |
| | CTGC | Tŷ Gwag / Empty Home, Bangor | 1 uned | £67,000 |
| | CTGC | Tŷ Gwag/ Empty Home , Bangor | 1 uned | £89,960 |
| | CTGC | Tŷ Gwag/ Empty Home , Bangor | 1 uned | £ 86,906 |
| | Grŵp Cynefin | Safle Caelloi, Pwllheli | 9 Uned | £ 496,729 |

| **Blwyddyn/ Year** | **Cymdeithas Tai/ Housing Assoc** | **Lleoliad / Location** | **Nifer Unedau/ no. of units** | **Cyfanswm cost y Cynllun/ total scheme cost** |
|---|---|---|---|---|
| 2015-16 | Grŵp Cynefin | Glanadda, Bangor | 8 | £636,963 |
| | CCG | Tan y Bryn, Lon y Parc, Bangor | 6 uned | £643,256 |
| | Grŵp Cynefin | Pant yr Eithin, Harlech, | 13 uned | £1,382 |
| | Grŵp Cynefin | Achub Morgais | 1 uned | |

**2.4 Arian Unedau llai**

O'r rhestr uchod roedd rhai yn unedau llai. Cyflwynodd LLC gynllun 'one-off' i gynyddu cyflenwad o dai llai, sef unedau 1 a 2 stafell wely. Mae 4 cynllun wedi eu hariannu yng Ngwynedd, eto gyda'r Cyngor yn rhoi arweiniad strategol i'r datblygiadau hyn sef:

| Cymdeithas Tai / Housing Association | Cyfeiriad y Cynllun/ Address | Nifer o unedau / No of Units | Dyddiad Cychwyn Start Date |
|---|---|---|---|
| Cartrefi Gwynedd Cymunedol | Lon Abererch, Pwllheli | 7 | Ebrill / April |
| Cartrefi Gwynedd Cymunedol | Tan y Bryn, Lon y Parc, Bangor | 6 | Ebrill / April2015 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cartrefi Gwynedd Cymunedol | Tŷ Cegin, Bangor | 5 | Ebrill / April 2015 |
| Cartrefi Gwynedd Cymunedol | Wenallt, Dolgellau | 8 | Mawrth / March 2016 |

Mae'r uchod yn cyfrannu grant o 58% o gostau adeiladu'r cynlluniau gyda'r Cymdeithasau Tai yn benthyca 42%.

**2.5 Cynllun Grant Cyllido Tai (Housing Finance Grant)**

Cyflwynodd LLC fenthyciadau ar gyfer Cymdeithasau Tai, mae hwn yn gweithio yn wahanol i grant gan fod angen i Gymdeithasau Tai ad- dalu'r swm dros gyfnod o nifer o flynyddoedd. Mae LLC yn cyflwyno tranche nesaf o'r dull hwn o gyllido o 2017 ymlaen gyda'r bwriad bod cynlluniau o hyn ymlaen yn cael eu cyllido yn rhannol drwy grant tai cymdeithasol a'r gweddill drwy grant cyllido tai.

**2.6 Mynediad at wybodaeth am Dai**

Mae Tîm Opsiynau Tai a Pholisi Gosod Cyffredin mewn bodolaeth ers 2012, bellach ceir un ffurflen gais i'w gwblhau ar gyfer ty Cymdeithasol yn y Sir gyda'r Tim Opisynau Tai yn gyfrifol am baratoi rhestr fer ar gyfer . Adroddiad drafft wedi ei lunio sydd yn adolygu'r hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yma ynghyd â chynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.
Mae atodiad 1 yn rhoi darlun o faint sydd ar y rhestr aros a beth yw nifer y stoc.

**2.7 Hwylusydd Tai Gwledig**

Mae LLC wedi cyhoeddi yn eu dogfen 'Symud Cymru Ymlaen' bod gan Hwyluswyr Tai Gwledig rôl bwysig. Mae trefniadau wedi eu sefydlu i gael model HTG Rhanbarthol fydd yn gallu cynnig gwasanaeth ar hyd Gogledd Cymru ac yn golygu bod modd gwneud defnydd o bwl o HTG gydag arbenigedd mewn meysydd gwahanol.

**2.8 Cynyddu tai fforddiadwy drwy fodel ariannol gan y Cyngor**

Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo llunio cynlluniau busnes fydd yn gyrru agenda strategol y Cyngor yn ei flaen, gweler linc isod:

[https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=133&mid=1649&ver=4&](https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=133&mid=1649&ver=4&)

**3. Blaenoriaeth 2: Ansawdd- Effeithlonrwydd a'r Amgylchedd**

Yr hyn rydym yn anelu i'w gyflawni yn ein Strategaeth yw:

- cyflwyno cynlluniau fydd yn helpu gwella effeithlonrwydd ynni yn y cartref a bod yn rhagweithiol i leihau tlodi tanwydd

Canlyniad yr anelir ato drwy wireddu'r Strategaeth hwn yw bod:

- llai o ddibyniaeth ar danwydd ffosil yn y Sir

- cartrefi yn addas ar gyfer anghenion trigolion Gwynedd

**3.1 Wardeiniaid Ynni Cymunedol**

Nifer o Bartneriaid y Bartneriaeth yn cyfrannu tuag at y cynllun hwn, yn gweithio ar dargedu ardaloedd mewn cytundeb â'r partneriaid.

Enghraifft o waith y Wardeiniaid ar gyfer 2015-16 yw:

- Cysylltwyd yn 1-1 gyda 105 o breswylwyr gan gynghori ar faterion yn gysylltiedig gyda thechnegau arbed ynni.
- Cyflwynodd y wardeiniaid ynni 105 o geisiadau llwyddiannus 'Warm Home Discount' gyda darparwyr ynni roedd y preswylwyr wedi cofrestru gyda.
- Arbedwyd £14,700 o arian i'r 105 o breswylwyr gyda'r ceisiadau 'Warm Home Discount'
- Cyflwynodd y wardeiniaid ynni 3 cais 'Nyth' llwyddiannus gydag asiant 'Ymddiriedolaeth Arbed Ynni' yn cynnwys -
  1.System gwresogi newydd yn cynnwys bwyler a 6 rheiddiadur.
  2.System gwresogi newydd gyda bwyler newydd ac 11 rheiddiadur.
  3.Llosgwr tanwydd solet gyda 6 rheiddiadur ac bwyler cefn a phwmp
- Gosodwyd paneli radflek tu fewn 15 o'r eiddo uchod.
- Dosbarthwyd 56 o fylbiau ynni isel rhwng yr eiddo uchod.
- Mae'r holl wybodaeth yma yn profi bod arbedi 57,750kg co2 fesul flwyddyn

Yn ogystal a bod yn gyswllt gweledol ar gyfer Cynllun Cartrefi Clyd yn ardal Peblig yn 2015-16.

Gweler isod symiau rydym wedi ei lwyddo i ddenu i Wynedd 2013-2017 drwy Grantiau Arbed a Chartrefi Clyd:

- Nantlle £1.242m
- Y Fron / Carmel £2.326m
- Deiniolen £3.355m
- Peblig, Caernarfon £1.213m
- Cadnant, Caernarfon £220,000

Mae'r tua 1,300 o dai wedi derbyn rhyw fath o fesuriadau effeithlonrwydd ynni drwy y cynlluniau hyn gyda chyfran ohonynt yn dai cymdeithasol

**4. Blaenoriaeth 3: Addasrwydd**

Yr hyn rydym yn anelu i'w gyflawni yn ein Strategaeth yw:

- bod llety a gwasanaethau cefnogol yn cael ei gydlynu'n effeithiol er mwyn helpu pobl fregus a'u hatal rhag bod mewn angen

Canlyniad yr anelir ato drwy wireddu'r Strategaeth hwn yw bod:

- cartrefi yn addas ar gyfer anghenion trigolion Gwynedd
- bod trigolion yn derbyn gwasanaethau priodol

**4.1 Digartrefedd**

Strategaeth bresennol ar gyfer Digartrefedd wedi dod i ben a bellach Deddf Tai wedi dod yn weithredol. Bydd angen llunio Strategaeth erbyn 2018.

Mae'r isod yn crynhoi gweithgareddau sydd wedi cymryd lle fel rhan o waith cyflwyno Deddf Tai 2015

- Gwaith mapio gwasanaethau S180 - gwaith wedi cymryd lle gyda'r asiantaethau sef Tai Gogledd Cymru/Gisda/Agorfa a Shelter
- Cytundeb Cynhwysfawr gydag Asiantaethau Tai_– hwn bellach wedi ei fabwysiadu angen adolygu cryfderau a gwendidau
- Protocol cyd-weithio gyda Hosteli Llety a Chefnogaeth
- Hyfforddiant ar y cyd

**4.2 Cefnogi Pobl**

Mae Cefnogi Pobl yn wynebu toriadau o ran cyllideb ac mae gofyn bod cymorth yn cael ei sianelu gwasanaethau i'r rhai sydd mwyaf anghenus. Mae gwaith yn digwydd i gael 'single points of access' ar gyfer cyfeirio ymlaen i'r gwasanaeth hwn

**4.3 Pobl Hyn**

Mae'r uchelgais o gael 3 cynllun Tai Gofal Ychwanegol yn prysur gael ei wireddu, gyda'r 3ydd cynllun i'w gwblhau yn 2017. Mae Strategaeth Letya Pobl Hyn wedi ei lunio a bydd yn cael ei gylchredeg a'i drafod yn y cyfarfod nesaf o'r Bartneriaeth.

**4.4 Lletya Anabledd Dysgu**

Mae cynllun ar y cyd gyda Chymdeithas Tai a'r Cyngor bron a'i gwblhau yn Harlech. Mae darpariaeth gwasanaeth o fewn Caernarfon yn cael eu datblygu gyda Grŵp Cynefin.

**4.5 Cefnogaeth yn y Cartref**

Gwasanaeth Tai yn darparu addasiadau i'r sector breifat sydd bellach yn cynnwys uchafswm grant gydag opsiynau benthyciadau ar gael. Cydweithio yn digwydd rhwng Cymdeithasau Tai a'r Gwasanaeth er mwyn adnabod yr opsiynau gorau ar gyfer addasu eiddo.

**5. Adolygu'r Strategaeth ar gyfer cyfnod 2017-21**

Mae rhan hwn o'r adroddiad yn adrodd ar rhai faterion sydd angen eu cynnwys yn y Strategaeth ar gyfer 2017-21 sydd yn ymwneud â Chymdeithasau Tai.

### 5.1 Cyflenwad

Disgwylir i'r unedau hyn cael eu cwblhau yn ystod 2016-17

| Blwyddyn /Year | Cymdeithas Tai/ Housing Association | Lleoliad / Location | Nifer Unedau / No of uniits | Cyfanswm cost y Cynllun / Total Scheme cost |
|---|---|---|---|---|
| 2015-16 | Grwp Cynefin | Pen y Bryn, Penrhyndeuraeth | 8 uned | £832,749 |
| | CCG | Tai Tywod, Pwllheli | 7 uned | **£834,670** |
| | CCG | Plas Llwyd, Bangor | 9 | 805,733 |
| | CCG | Ty Cegin, Bangor | 5 | £629,400 |
| | Grwp Cynefin | Stad Cornwall | 9 | £1,014,000 (dim grant tai cymdeithasol / not SHG) |

- Bydd angen i gyd weithio i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru (LLC) o 20,000 erbyn 2021. Mae ymrwymiad ariannol gan LLC i gefnogi hyn gyda chefnogaeth Grant Tai Cyllido a Grant Tai Cymdeithasol

Mae'n bosib bydd bron i £7miliwn yn cael ei ddyrannu i Wynedd rhwng 2017-2021, nid yw'r ffigwr hwn wedi ei gadarnhau eto. Bydd yr arian yma yn cael ei ddyrannu i'r Cymdeithasau Tai er mwyn darparu cartrefi rhent cymdeithasol, rhent canolraddol neu rent niwtral.

Cyngor Gwynedd fydd yn blaenoriaethu'r rhestr yn unol â threfn o sgorio ceisiadau yn erbyn criteria penodedig.

- Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo cynllun benthyciadau ar gyfer Cymdeithasau Tai, pwrpas y model hwn yw hyrwyddo gwahanol fodelau o dai fforddiadwy. Bydd hyn yn cynnwys tai i'w prynu neu rent canolraddol, cynyddu nifer o dai gwag sydd yn dod yn ôl i ddefnyddio a darpariaeth ar gyfer pobl ddigartref.
- Mae angen pwyslais ar gymysgedd o unedau yn ôl maint, sef unedau 1, 2 a 3 llofft wely.
- Mae Cymdeithasau Tai yn cael eu gweld fel partner naturiol ar gyfer datblygu cynlluniau arbenigol, megis anabledd dysgu yn safle Frondeg, Caernarfon. Gall y berthynas ddatblygu ymhellach wrth i opsiynau eraill ddatblygu yn y Sir.
- Mae rôl Hwylusydd Tai Gwledig yn bwysig o ran cael adnodd i fynd i gymunedau er mwyn darganfod beth yw'r angen. Rydym wedi cyfuno adnoddau ar draws Siroedd Môn, Conwy a Gwynedd. Mae'n fwriad cael model sydd yn hyrwyddo'r gwasanaeth i beidio bod yn llwyr ddibynnol ar grant gan LLC.

**5.2 Ansawdd- Effeithlonrwydd a'r Amgylchedd**

Mae'r agenda trechu tlodi tanwydd yn parhau yn flaenoriaeth gan LLC ac mae'n fwriad iddynt gael contract ar gyfer cynlluniau gwella effeithlonrwydd ynni yn fuan. Bydd hyn yn cael ei frandio dan Gartrefi Clyd.

Yn y gorffennol, rydym wedi gweithio yn dda gyda'r Cymdeithasau Tai ar adnabod eiddo addas ac i gael arian 'ychwanegol' ar gyfer y cynlluniau hyn.

Mae rôl y Wardeiniaid Ynni wedi bod yn ystod cynlluniau Cartrefi Clyd wedi rhoi adnodd ychwanegol i ni hyrwyddo y cynllun yn lleol. Mae amheuaeth byddai cymaint wedi cymryd rhan yn y cynllun drwy ddibynnu ar lythyr gan y Cyngor yn unig.

**5.3 Addasrwydd**

Fel sydd nodi eisoes mae angen adolygu'r Strategaeth Digartrefedd, bwriad yw gwneud hyn ar lefel Gogledd Cymru gyda Chynlluniau gwaith penodol i bob Sir gan fod amgylchiadau am fod ychydig yn wahanol ym mhob Sir.

Yn y cyfamser, bydd angen cynnal adolygiad o'r Gytundeb Cynhwysfawr sydd mewn lle bellach ers blwyddyn gyda'r Cymdeithasau Tai. Mae hwn yn un o'r prif ddogfennau sydd yn mesur sut allwn atal digartref ar y cyd.

Mae nifer o Gymdeithasau Tai yn derbyn Cefnogi Pobl er mwyn darparu gwasanaethau cefnogol i'w tenantiaid bregus. Mae toriadau mewn cyllideb yn golygu bod angen darparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol. Mae gan y Cyngor rôl Strategol yw cymryd mwyn sicrhau bod tenantiaid bregus yn cael eu cefnogi fel bod hyn yn atal achosion o ddigartrefedd.

Fel sydd wedi ei nodi, mae'r Strategaeth Letya Pobl hyn wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Mawrth 2016 ac yn adnabod Cymdeithasau Tai fel un o brif bartneriaid i allu addasu neu ddarparu eu stoc bresennol ar gyfer pobl hyn mewn ardaloedd penodol.

**6 Cwestiynau penodol ofynnwyd fel rhan o'r Cyfarfod Paratoi ar gyfer y Pwyllgor Craffu**

1. **Asesiad Angen** - Ydy gwir 'angen' yn cael ei ystyried, oes asesiad o'r 'angen' yn / neu wedi cael ei gwblhau ac a yw'r angen hynny wedi ei fapio allan yn ddaearyddol?

Defnyddir gwybodaeth am angen o'r Gofrestr Tai Cyffredin fel dangosydd o angen ac mae posib ei fapio allan yn ddaearyddol. Fel rhan o'r broses o gytuno dyraniadau grant tai cymdeithasol mae'r Cyngor yn defnyddio dull o asesu bob cynllun yn unigol yn erbyn trefn sgorio, hyn sydd wedi yn helpu pennu pa gynlluniau ynghyd a pa gyllideb sydd ar gael a phryd sydd yn bosib o ran materion cynllunio.

2. **Natur y ddarpariaeth** - A yw'r Bartneriaeth yn canolbwyntio yn ormodol ar dai cymdeithasol ar draul tai preifat fforddiadwy? Pa fath o ddarpariaeth y mae'r Bartneriaeth yn ei wneud ar gyfer hynny?

Mae'r Grant Tai Cymdeithasol ar gael i Gymdeithasau Tai yn unig, ni all datblygwyr preifat gael mynediad ato. Mae'r Gymdeithas Tai yn derbyn grant o 58% gan gael morgais preifat ar y gweddill (42%). Mae rhaid i eiddo fod i safon sydd yn cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru, sydd yn uwch na'r hyn sydd yn cael ei ddarparu gan ddatblygwyr preifat yn aml iawn. Mae rhaid i'r eiddo fod yn rhent cymdeithasol neu rent canolraddol. Mae elfen o'r grant yn mynd tuag at Gynllun Cymorth Prynu, sef cynllun rhannu ecwiti. Mae hwn ar gyfer pob sydd eisiau prynu eu cartref ond angen cymorth o hyd at 30% o siâr gan y Gymdeithas Dai. Bydd hwn yn cael ei ad dalu pan fo'r eiddo yn cael ei werthu a'i ailgylchu ar gyfer datblygiadau newydd neu gymorth prynu arall.

Mae'r model benthyca sydd wedi ei sefydlu gan y Cyngor yn rhoi opsiwn i'r Cymdeithasau Tai werthu rhai unedau fel rhan o'r cynllun hwn.

3. **Addasrwydd y Stoc** - A oes ystyriaeth yn cael ei roi i adeiladau gwag fel capeli ac eglwysi gwag yn hytrach nag adeiladu o'r newydd? Yn ogystal, a yw'r ddarpariaeth yn addas ar gyfer anghenion ein trigolion - ee digon o fyngalos 1 a 2 ystafell wely

Yn aml iawn mae addasu eiddo gwag fel capeli ac eglwysi yn gallu bod yn gostus, o ran y Cymdeithasau Tai mae'n rhaid i bob cynllun pasio meini prawf gwerth am arian gan LLC cyn cant eu hariannu.

Mae mwy o bwyslais bellach gan Gymdeithasau Tai I adeiladu eiddo llai, 1 a 2 stafell wely ac mae hyn yn cynnwys rhai byngalos.

4. **Lleoli'r ddarpariaeth** - A oes ystyriaeth yn cael ei roi i 'wasgaru' datblygiadau newydd yn hytrach na chreu ystadau er mwyn cael pobl i gymhathu mewn cymdeithas gymysg yn lle byw is-grwpiau o fewn cymdeithas.

Fel sydd ag unrhyw ddatblygiad mae'n rhaid cael 'economies of scale' ar gyfer cynlluniau newydd. Byddai yn anodd cael yr un effaith wrth wasgaru unedau yn blith draphlith.

Mae'r model y Cyngor o ddarparu benthyciad i Gymdeithasau Tai yn edrych ar safleoedd llai, megis 4 uned

5. **Rhwystrau Deddfwriaethol** - A yw'r Bartneriaeth yn adnabod unrhyw rwystrau deddfwriaethol i wireddu ei uchelgais y gellid cydweithio er mwyn ceisio eu symud?

Mae newidiadau Deddfwriaeth Lles yn mynd i gael effaith ar y math o eiddo gall denantiaid ddewis byw ynddo. Bydd nifer fawr o denantiaid yn gorfod talu am y bwlch rhwng yr hyn maent yn ei dderbyn drwy Fudd dal Tai neu Universal Credit eu hunain ac mae risg mawr iddynt fynd i ddyled.

Mae hyn yn effeithio model busnes Cymdeithasau Tai ac yn gwneud hi yn anoddach adeiladu cartrefi newydd gan na fydd budd dal yn talu am bob elfen o'r rhent a thal gwasanaeth

6. **Cwrdd ag Angen Lleol** - Pa fath o fodelau sydd wedi eu datblygu a'u defnyddio lle mae pobl leol yn cael dylanwad ar y dewis o denantiaid er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn ymateb i anghenion lleol?

Mae'n rhaid dilyn Deddfwriaeth Cenedlaethol o beth sydd yn cael ei ystyried fel angen ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu drwy'r drefn bwyntiau. Mae hi yn anodd rhoi rheolaeth neu ddylanwad i bobl o fewn cymunedau ddewis pwy yw tenantiaid. Mae'r polisi yn rhoi pwyntiau am gysylltiad lleol ac yn aml mae Cymdeithasau Tai yn gwneud cyswllt gyda'r Cynghorau Pentrefi i drafod cynlluniau arfaethedig ac unrhyw ofynion polisi


7. **Rôl y Cymdeithasau Tai** - Beth yw rôl ehangach y Cymdeithasau Tai o fewn cymunedau?


Drwy'r grant tai cymdeithasol mae Cymdeithasau Tai yn buddsoddi yn helaeth mewn ardaloedd, megis £8.4 miliwn yn ardal Porthmadog ar gyfer datblygiad Tai Gofal Ychwanegol, Hafod y Gest. Mae adroddiad diweddar CCG ar effaith buddsoddi drwy eu Rhaglen WHQS yn dangos effaith ar denantiaid ar gymuned. Yn ogystal, mae gwybodaeth o fewn yr adroddiad yn dangos buddsoddiad sydd wedi bod yn y Sir.

# Nifer Tai Cymdeithasol a Nifer Ar Y Gofrestr Tai Cyffredin Ymhob Ardal


| Rhif | Cymuned | Nifer Tai Cymdeithasol | Nifer Ar y Gofrestr Tai Cyffredin | Nifer Eiddo Ddaeth Yn Wag I'w Gosod 15-16 |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Aberdaron | 10 | 17 | 1 |
| 2 | Aberdyfi | 42 | 41 | 1 |
| 3 | Abergwyngregyn | 1 | 15 | 0 |
| 4 | Abermaw | 196 | 112 | 28 |
| 5 | Arthog | 22 | 29 | 1 |
| 6 | Bala | 236 | 60 | 33 |
| 7 | Bangor | 1528 | 460 | 136 |
| 8 | Beddgelert | 15 | 17 | 2 |
| 9 | Bethesda | 368 | 156 | 24 |
| 10 | Betws Garmon | 5 | 7 | 3 |
| 11 | Bontnewydd | 53 | 109 | 3 |
| 12 | Botwnnog | 43 | 16 | 1 |
| 13 | Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain | 18 | 18 | 1 |
| 14 | Bryncrug | 15 | 53 | 4 |
| 15 | Buan | 7 | 7 | 0 |
| 16 | Caernarfon | 1081 | 370 | 104 |
| 17 | Clynnog | 51 | 15 | 8 |
| 18 | Corris | 37 | 13 | 1 |
| 19 | Criccieth | 98 | 136 | 6 |
| 20 | Dolbenmaen | 51 | 42 | 2 |
| 21 | Dolgellau | 205 | 98 | 27 |
| 22 | Dyffryn Ardudwy a Thalybont | 64 | 55 | 8 |
| 23 | Ffestiniog | 374 | 66 | 39 |
| 24 | Ganllwyd | 6 | 9 | 1 |
| 25 | Harlech | 46 | 59 | 1 |
| 26 | Llanaelhaearn | 89 | 33 | 13 |
| 27 | Llanbedr | 21 | 42 | 1 |
| 28 | Llanbedrog | 51 | 45 | 4 |
| 29 | Llanberis | 160 | 99 | 12 |
| 30 | Llanddeiniolen | 285 | 148 | 23 |
| 31 | Llandderfel | 35 | 15 | 3 |
| 32 | Llandwrog | 104 | 76 | 6 |
| 33 | Llandygai | 109 | 100 | 11 |
| 34 | Llanegryn | 17 | 26 | 0 |
| 35 | Llanelltyd | 5 | 29 | 1 |
| 36 | Llanengan | 90 | 54 | 5 |
| 37 | Llanfair | 14 | 22 | 0 |
| 38 | Llanfihangel Y Pennant | 13 | 14 | 2 |
| 39 | Llanfrothen | 14 | 11 | 1 |
| 40 | Llangelynnin | 19 | 16 | 2 |
| 41 | Llangywer | 1 | 2 | 0 |
| 42 | Llanllechid | 49 | 55 | 1 |
| 43 | Llanllyfni | 309 | 90 | 30 |
| 44 | Llannor | 107 | 107 | 5 |
| 45 | Llanrug | 122 | 123 | 5 |
| 46 | Llanuwchllyn | 22 | 10 | 3 |
| 47 | Llanwnda | 93 | 52 | 7 |
| 48 | Llanycil | 3 | 6 | 0 |
| 49 | Llanystumdwy | 71 | 80 | 10 |
| 50 | Maentwrog | 48 | 14 | 3 |
| 51 | Mawddwy | 19 | 8 | 1 |
| 52 | Nefyn | 141 | 52 | 14 |
| 53 | Pennal | 12 | 13 | 2 |
| 54 | Penrhyndeudraeth | 111 | 97 | 24 |
| 55 | Pentir | 77 | 149 | 2 |
| 56 | Pistyll | 20 | 8 | 5 |
| 57 | Porthmadog | 241 | 186 | 21 |
| 58 | Pwllheli | 417 | 203 | 52 |
| 59 | Talsarnau | 17 | 21 | 0 |
| 60 | Trawsfynydd | 58 | 11 | 4 |
| 61 | Tudweiliog | 24 | 11 | 0 |
| 62 | Tywyn | 267 | 103 | 10 |
| 63 | Waunfawr | 72 | 59 | 11 |
| 64 | Y Felinheli | 43 | 97 | 2 |





# Tai Gwag Gwynedd 2016




# Tai Gwag Gwynedd 2016

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

| Enw | Nifer |
|---|---|
| Bowydd and Rhiw | 50 |
| Abermaw | 43 |
| Aberdovey | 42 |
| Tywyn | 37 |
| Llangelynin | 35 |
| Talysarn | 35 |
| Bala | 33 |
| Harlech | 33 |
| Llanaelhaearn | 31 |
| Penrhyndeudraeth | 29 |
| Seiont | 28 |
| Diffwys and Maenofferen | 28 |
| Dolgellau North | 28 |
| Llanberis | 27 |
| Porthmadog West | 27 |
| Menai (Caernarfon) | 27 |
| Teigl | 26 |
| Corris/Mawddwy | 25 |
| Trawsfynydd | 23 |
| Pwllheli North | 22 |
| Dyffryn Ardudwy | 22 |
| Groeslon | 22 |
| Brithdir and Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd | 21 |
| Y Felinheli | 21 |
| Llanwnda | 21 |
| Dolgellau South | 20 |
| Llanuwchllyn | 20 |
| Gerlan | 20 |
| Ogwen | 20 |
| Penygroes | 19 |
| Llanystumdwy | 19 |
| Criccieth | 19 |
| Abersoch | 19 |
| Efail-newydd/Buan | 17 |
| Morfa Nefyn | 17 |
| Aberdaron | 17 |
| Pwllheli South | 16 |
| Nefyn | 16 |
| Llanengan | 16 |
| Abererch | 16 |
| Waunfawr | 16 |
| Cadnant | 16 |
| Llanrug | 15 |
| Pentir | 15 |
| Clynnog | 15 |
| Penisarwaun | 15 |
| Llanllyfni | 14 |
| Llanbedr | 14 |
| Porthmadog East | 14 |
| Deiniolen | 14 |
| Tudweiliog | 14 |
| Deiniol | 13 |
| Porthmadog-Tremadog | 13 |
| Botwnnog | 13 |
| Bryn-crug/Llanfihangel | 13 |
| Llanbedrog | 12 |
| Tregarth & Mynydd Llandygai | 12 |
| Llandderfel | 12 |
| Arllechwedd | 12 |
| Menai (Bangor) | 11 |
| Dolbenmaen | 10 |
| Hendre | 9 |
| Glyder | 9 |
| Bethel | 8 |
| Peblig (Caernarfon) | 8 |
| Garth | 8 |
| Bontnewydd | 8 |
| Cwm-y-Glo | 7 |
| Dewi | 4 |
| Hirael | 4 |
| Marchog | 3 |






Contains OS data © Crown Copyright and database right 2015

| | Pris Canolrif Eiddo (£) | Incwm ei angen i fforddio pris lefel mynediad (£) | Incwm Canolrif Aelwyd (£) | Aelwydydd wedi eu prisio allan o'r farchnad (%) |
|---|---|---|---|---|
| **Ynys Môn** | 156,000 | 32,357 | 23,567 | 64.1 |
| **Gwynedd** | 144,000 | 27,714 | 22,240 | 59.7 |
| **Cymru** | 141,000 | 28,571 | 24,271 | 58.7 |
| | | | | |
| Aethwy a Seiriol | 190,000 | 40,000 | 25,799 | 71.1 |
| Bro Aberffraw a Bro Rhosyr | 138,000 | 31,429 | 24,782 | 62.2 |
| Caergybi ac Ynys Cybi | 110,000 | 22,321 | 19,996 | 53.9 |
| Canolbarth Môn a Llifon | 158,000 | 34,286 | 24,312 | 70.8 |
| Lligwy a Twrcelyn | 169,250 | 37,143 | 23,522 | 72.3 |
| Talybolion | 150,000 | 34,714 | 24,419 | 69.3 |
| | | | | |
| Bangor | 145,000 | 33,566 | 22,958 | 67.8 |
| Caernarfon | 130,000 | 28,571 | 23,866 | 58.4 |
| Dolgellau | 145,000 | 30,571 | 21,139 | 67.8 |
| Ffestiniog | 77,000 | 16,500 | 19,464 | 41.6 |
| Llŷn | 175,000 | 35,071 | 22,051 | 72.9 |
| Penllyn | 149,500 | 24,286 | 23,349 | 66.5 |
| Porthmadog | 174,400 | 28,571 | 22,306 | 62.2 |
| Tywyn | 145,500 | 28,714 | 20,453 | 51.9 |

**Gweithdy wedi ei drefnu gyda Chymdeithasau Tai a Chyngor Gwynedd ar oblygiadau cap LHA**

1. **Pwrpas y Gweithdy**

- Rhoi trosolwg o'r newidiadau LHA
- Adnabod materion fydd yn effeithio ein Polisi Gosod Cyffredin o bersbectif ymgeiswyr a phartneriaid
- Adnabod newid sydd ei angen mewn polisi neu weithdrefn
- Adnabod risgiau a mesurau lliniaru all cael eu cyfarch drwy bolisi cyfredol
- Sicrhau bod tenantiaethau yn gynaliadwy

2. **Presenoldeb**

Adnabuwyd byddai cynrychiolaeth o'r canlynol yn fuddiol:

- Cynrychiolaeth gan Gymdeithasau Tai
- Cynrychiolaeth gan Uned Strategol Tai y Cyngor
- Cynrychiolaeth o'r Tîm Opsiynau Tai
- Cynrychiolaeth o Dîm Budd daliadau Tai

3. **Dyddiad**

Gweithdy wedi ei drefnu 9/11/16

4. **Adborth o'r diwrnod**

Cafwyd cynrychiolaeth dda ar y diwrnod gyda chyfraniadau positif gan bawb i fater sydd yn ddyrys i bawb. Cytunwyd byddai cynllun gwaith yn cael ei lunio gyda chyfrifoldebau yn cael eu rhannu rhwng swyddogion. Rhai 'quick wins' oedd penderfynu pa neges rydym angen ei roi i bobl pan maent yn meddwl am geisio am dy cymdeithasol a pha newidiadau sydd angen eu gwneud i'r Polisi Cyffredin Tai. Mae copi o'r cynllun gwaith drafft wedi amgáu.

**Cynllun Gwaith dilyn Gweithdy LHA 9.11.16**

**Work Programme following LHA workshop 9.11.16**

*Cyflwynir hwn fel drafft ar gyfer Pwyllgor Craffu Gwasanaethau, nid ydyw wedi ei gymeradwyo gan y Grŵp Gweithdy LHA*
*This is presented as a draft to the Services Scrutiny Committee; it has not been formally adopted by the LHA Workshop Group*



1. **Gwybodaeth a marchnata / Information and marketing**

| | **Gweithred/ Action** | **Cyfrifoldeb/ Responsibility** | **Erbyn Pryd / By when** | **Cynnydd /Progress** |
|---|---|---|---|---|
| 1. | Cytuno Prif negeseuon sydd angen i 3 prif grŵp:<br>• Pobl sengl<br>• Pobl hyn<br>• Teuluoedd<br>Ar sut i gael cartref a beth sydd yn fforddiadwy<br><br>*Agree main messages that need to be conveyed to 3 main groups*<br>• *Single people*<br>• *Older people*<br>• *Families*<br>*On how to get a home and what is affordable* | Pawb o'r gweithdy<br><br>*Each member of the workshop* | 18 Tachwedd / November 2016 | |
| 2. | Adnabod pa newidiadau sydd angen i'r Polisi Gosod Cyffredin<br><br>*Identify changes needed to the Common Allocations Policy* | Pawb o'r gweithdy er mwyn ei weithredu gan GWP<br><br>*Each member to forward for implementation by GWP* | Adolygu Polisi hefo argymhellion erbyn Rhagfyr 2016<br><br>*Review Policy with recommendations by December 2016* | |
| 3. | Angen sicrhau cysondeb gyda unrhyw polisi DHP | Dilynant o'r cam uchod | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *Ensure consistency with DHP policy* | *Follow on from point above* | | |
| 4. | Creu llinell amser hefo cerrig milltir hyd at Ebrill 2018<br><br>*Produce timeline with milestones April 2018* | AWO ac ELL | 20 Rhagfyr / December 2016 | |
| 5. | Oes angen gwaith ar wybod beth mae pobl angen ei wybod yn ystod y cyfnod hwn?<br><br>*Is there research needed into customer insight as what people need to know during the period of change?* | Pawb o'r gweithdy<br><br>*Each member of the workshop* | 9 Rhagfyr / December | |
| 6. | Oes app fforddiadwyedd yn bodoli ac yn cael ei weld fel ymarfer da<br><br>*Is there an affordability app which is seen as best practice* | BS | 25 Tachwedd / November 2016 | |
| 7. | Datblygu gem 'Bus stop' i fod ar lein a prif negeseuon gall ei gyfleu?<br><br>*Develop the 'Bus Stop' game to be on line and what key messages could be developed?* | CR | 25 Tachwedd / November 2016 | |
| 8. | Beth am gynnwys 'online chat' i bobl<br>*Could we offer online chat facility* | Pawb o'r gweithdy<br><br>Each member of the workshop | | |
| 9. | A allwn gynnig cwrs sgiliau bywyd fel rhan o broses cynnig tenantiaeth | MP a DM i edrych ar efelychu model CCG | 9 Rhagfyr / December | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *Could we offer life skills course as part of tenancy offer* | *MP ac DM to look at replicating CCG model* | | |
| 10. | Beth oedd effaith 'Mae eich budd daliadau yn newid' gan CHC<br><br>*What was the effect of ' your benefits is changing campaign by CHC* | DGJ | 18 Tachwedd / November | |
| 11. | Gwybodaeth am cynllun cyswllt digartrefedd hefo ysgolion<br><br>*Information on contact project on homelessness with schools* | SG i rannu gwybodaeth<br><br>*SG to share information* | 18 Tachwedd / November | Wedi ei rannu<br><br>*Information shared* |

**2. Math o stoc / Type of stock**

| | Gweithred/ Action | Cyfrifoldeb/ Responsibility | Erbyn Pryd / By when | Cynnydd /Progress |
|---|---|---|---|---|
| 12. | Casglu data am beth yw'r angen a'r galw mewn ardaloedd yn seiliedig ar tri categori yn rhif 1<br><br>*Collate data on the need and demand in areas based on the 3 categories identified in point 1* | ELl | Ionawr /January 2017 | |
| 13. | Cyfyngiadau grant (GTC)ac LHA yn gwneud model rhent canolraddol yn amhosib yng Ngwynedd- angen cyflwyno tystiolaeth i LLC<br><br>*Grant conditions and LHA make intermediate rent unviable in Gwynedd- need to present evidence to WG* | ELL | 25 Tachwedd / November 2016 | |
| 14. | Angen arweiniad cyfreithiol ar statws elusennol Cymdeithasau Tai a modelau gwahanol o rentu<br><br>*Need legal assistance on charitable status of RSL and different rental models* | | | |
| 15. | Pa fodelau amgen sydd o ran darparu tai- dyluniadau arloesol<br><br>Are there any different solutions around delivering housing- innovative design | Pawb | Parhau / ongoing | |

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

**ADRODDIAD BLYNYDDOL (2015/16) CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD (CCG) I GYNGOR GWYNEDD**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer** | Trafodaeth a Phenderfyniad | | |
| **Dyddiad** | 24ain Tachwedd, 2016 | | |
| **Eitem** | | **Papur** | |
| **Awdur** | Ffrancon Williams, Prif Weithredwr | | |
| **Pwrpas** | Cyflwyno adroddiad Blynyddol CCG i Bwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd ac i gael cytundeb ffurfiol bod CCG wedi cyflawni pob addewid a wnaed i denantiaid yn y ddogfen gynnig. | | |
| **Goblygiadau ariannol** | Dim yn berthnasol. | | |
| **Rheoli Risg** | Isel | | |
| **Atodiadau** | Dim | | |

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Fel sydd wedi ei nodi yn y Gytundeb Drosglwyddo, mae gofyn i CCG gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor yn nodi sut y mae wedi rhoi'r addewidion a wnaed i denantiaid yn y Ddogfen Gynnig ar waith a sut mae'n gweithredu goblygiadau'r Gytundeb.

1.2 Dyma yw diben yr adroddiad hwn ac mae'n cynnwys gwaith CCG yn ystod ei chweched flwyddyn o'r 1af Ebrill 2015 i 31ain Mawrth 2016.

**2.0 Sgôp**

2.1 Mae sgôp yr adroddiad yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

1. Cyflawni addewidion y ddogfen gynnig
2. Gwaith buddsoddi Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) a gwaith buddsoddi cysylltiol arall
3. Trefniadau ymgynghori gyda thenantiaid a phrydleswyr
4. Goblygiadau o dan y Cytundeb (Cytundebau Enwebiadau ac Asiantaeth Tai, Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Phrotocol Budd-dal Tai)
5. Protocol Aelodau Etholedig
6. Gweithio mewn partneriaeth ar eitemau tai strategol pwysig
7. Materion gweithredol eraill

Trafodir rhan fwyaf o'r pwyntiau uchod yn fanwl yn y cyfarfodydd monitro rheolaidd a gynhelir gyda'r Cyngor bob chwarter. Ni fydd yr adroddiad yn nodi'r un lefel o fanylder ag sydd wedi ei gyflwyno yn flaenorol ond yn hytrach, crynhoi prif lwyddiannau yn ystod y cyfnod a rhoi gwybod i aelodau am heriau sy'n ein hwynebu yn y flwyddyn o'n blaenau.

**3.0 Cyflawni addewidion y ddogfen gynnig**

3.1 Bydd aelodau yn ymwybodol mai'r amserlen ar gyfer cwblhau'r addewidion a wnaed i denantiaid yn y Ddogfen Gynnig "Eich Cartref, Eich Dewis" oedd Ebrill 2015. Yn ystod

y cyfnod cyflawni, cafodd CCG ei fonitro yn agos gan y Cyngor drwy gyfarfodydd monitro chwarterol ac ar ddiwedd y cyfnod adroddwyd bod dau addewid o'r 169 wedi llithro ychydig. Roedd y rhain yn ymwneud â chwblhau rhaglen wella SATC a chwblhau gwaith trwsio ymatebol o fewn amserlenni. Cafodd swyddogion perthnasol y Cyngor wybod am y llithriad ac am gynllun CCG i adfer y sefyllfa.

Cwblhawyd y rhaglen wella SATC yn ystod Hydref 2015 ac rydym yn hapus o gael adrodd bod yna gynnydd wrth gyflawni'r targed trwsio sydd wedi golygu bod yna gynnydd ym moddhad ein tenantiaid.

Yn ystod y flwyddyn, bu i CCG gomisiynu adolygiad annibynnol o sut cafodd yr addewidion eu cyflawni ac mae'r canlyniadau wedi eu rhannu gyda swyddogion perthnasol y Cyngor. Daeth i'r casgliad ein bod ni wedi cadw at ein haddewidion. Roedd hyn yn ychwanegol i'r gwaith a gomisiynwyd gyda Public and Corporate Economic Consultants Ltd (PACEC) i asesu effaith ein gwaith (cyfeirir at hyn yn Adran 3.2 (1) isod.

Mae CCG yn ystyried bod addewidion y ddogfen gynnig wedi eu cwblhau a drwy'r adroddiad hwn gofynnit am gytundeb ffurfiol i hyn gan y Cyngor.

3.2 Prif lwyddiannau:

1. Comisiynwyd Public and Corporate Economic Consultants (PACEC) tuag at ddiwedd 2015 i gynnal asesiad effaith economaidd, cymdeithasol, iechyd a lles yn seiliedig ar weithgareddau CCG yn ystod y 5 mlynedd gyntaf o'i fodolaeth. Roedd y darganfyddiadau yn gadarnhaol iawn gyda buddsoddiad CCG wedi ei dargedu yn cyfrannu tuag at leihau anghydraddoldebau iechyd yng Ngwynedd. Dyma rai o'r prif ganlyniadau:

   i) Mae'r gwerth cymdeithasol (h.y. Buddion personol a'r cartref) yn deillio o weithgaredd CCG a chanlyniadau economaidd cysylltiedig a oedd yn dod i £13,040,420 y flwyddyn sy'n hafal i gyfartaledd o £2,301 y tenant y flwyddyn
   ii) Mae'r gwerth cymdeithasol effaith iechyd o ganlyniad i fuddsoddiad CCG yn dod i £44,645,813 y flwyddyn sy'n hafal i gyfartaledd o £7,878 y tenant y flwyddyn
   iii) Bu i 55% o denantiaid a oedd yn rhan o'r arolwg ddweud bod eu hiechyd wedi gwella yn dilyn y gwaith gwella
   iv) Bu i 59% o denantiaid ddweud bod iechyd eu plant wedi gwella
   v) Bu i 46% o denantiaid ddweud bod ganddynt fwy o hyder ac annibyniaeth ers gwelliannau CCG sy'n sylweddol o ystyried mai dim ond o dan bumed o denantiaid CCG sydd dros 65 mlwyddyn oed.
   vi) Bu i 82% o denantiaid ddweud bod eu cartrefi yn gynhesach ac yn haws i'w gwresogi yn dilyn y gwaith gwella
   vii) Roedd 45% o denantiaid a oedd yn rhan o'r arolwg yn credu bod addasiadau CCG wedi eu galluogi i aros yn eu cartrefi yn hirach yn hytrach na chael eu trosglwyddo i ofal eilradd.
   viii) Mae uwch swyddogion yr Heddlu yn credu bod gan CCG "ran sylweddol" i chwarae wrth leihau trosedd lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn benodol (a hyd yn oed troseddau difrifol). Bu iddynt hefyd dynnu sylw at ddefnydd effeithiol CCG o'u pwerau dros breswylwyr problemus yn y gymuned

gan nodi bod gwaith ymyrryd CCG wedi arwain at leihad yn yr angen i ail alw am wasanaethau'r heddlu (caiff ei ddisgrifio nawr fel "agos i ddim")

Mae crynodeb o'r adroddiad llawn ar gael yma; mae'r adroddiad llawn hefyd ar gael yma.

Yn ystod 2016, bydd canlyniadau adroddiad PACEC yn cael eu defnyddio i bennu unrhyw newidiadau sydd angen sylw o ran cyfeiriad strategol CCG.

2. Ym mis Medi 2015, bu i CCG gwblhau ei raglen wella SATC a chyrraedd cydymffurfiaeth lawn. Mae hyn yn llwyddiant sylweddol ar gyfer y sefydliad ac ni fyddai wedi bod yn bosib heb gefnogaeth gan holl randdeiliaid CCG.

3. Bydd CCG yn parhau i fuddsoddi yn ei stoc i sicrhau ei fod yn parhau i gwrdd â SATC gyda £40m wedi ei glustnodi ar gyfer hyn dros y 5 mlynedd nesaf.

4. Ar ddiwedd Mawrth 2016 roedd 153 yn cael eu cyflogi ar y rhaglen wella ar draws yr holl Ddarparwyr Gwasanaeth gyda 138 (90%) o ardal Gogledd Cymru, gan gynnwys 64 (42%) o Wynedd. Mae CCG yn parhau i weithio gyda'i gontractwyr i sicrhau bod 9 prentis a 4 hyfforddai yn rhan o'r rhaglen ym mis Mawrth 2016 ynghyd â sicrhau cyflogaeth llawn amser i un prentis ar ôl cyflawni'r brentisiaeth. Mae'n werth nodi hefyd bod CCG wedi recriwtio 4 prentis i'n tîm trwsio mewnol ym mis Medi 2015.

5. Yn dilyn cwblhau'r rhaglen fuddsoddi 5 mlynedd, fu i'r lefel o fuddsoddiad leihau yn naturiol. Felly mae lefelau staffio a chyfleon ar gyfer prentisiaid wedi lleihau hefyd. Fodd bynnag, drwy weithio gyda'n Darparwyr Gwasanaeth a'r swyddfa Byd Gwaith lleol rydym wedi cadw 3 lleoliad profiad gwaith hyd at fis Mawrth 2016 gyda 8 pellach ar gyfer gweddill 2016.

6. Hefyd, yn ystod haf 2015 bu i'n rhaglen lleoliad gwaith "Adeiladu Profiad" a ariannwyd drwy'r cynllun Buddion Cymdeithasol gan ein Darparwyr Gwasanaeth sicrhau 5 wythnos o waith gyda thâl yn ein Cyfarwyddiaeth Asedau ar gyfer 3 myfyriwr o Goleg Menai a oedd yn ymgymryd â chyrsiau Adeiladu. Mae'r cynllun wedi bod yn un hynod o lwyddiannus ers iddo gychwyn yn 2014; mae 7 lleoliad gwaith wedi eu cynnig dros y ddwy flynedd diwethaf gyda dau fyfyriwr yn cael cynnig swyddi llawn amser gyda dau ymgynghorydd allanol a'r 5 arall yn mynd ymlaen i astudio cyrsiau adeiladu ym Mhrifysgol John Moore yn Lerpwl. Bydd y cynllun 'Adeiladu Profiad' yn cael ei gynnal eto yn 2016.

7. Mae Darparwyr Gwasanaeth CCG yn parhau i gyfrannu at ein hethos o roi rhywbeth pendant yn ôl i'r gymuned. Ym mis Mawrth 2016, roedd 7 cynllun budd cymunedol wedi eu cyflawni gyda gwerth o dros £7,700; roedd hyn yn cynnwys cyfraniadau fel deunyddiau, amser staff a llafur.

8. Mae CCG wedi derbyn canmoliaeth am y ffordd y mae busnesau a phobl leol wedi cael budd o'n buddsoddiadau ac enillwyd y wobr Budd Cymunedol yng ngwobr Caffael Cenedlaethol Cymru yn 2015.

9. O ran datblygu, yn ystod y flwyddyn, mae CCG wedi cwblhau ei gynllun cartrefi

newydd o 6 uned yn Tan y Bryn, Bangor gyda 5 uned arall yn Llys Mathieson, Bangor a 7 uned yn Tir Tywod, Pwllheli i'w gorffen yn fuan yn Ebrill 2016. Mae gwaith wedi cychwyn ar safle ar 9 uned arall ym Mhlas Llwyd, Hirael, Bangor a 12 uned yn Y Wenallt, Dolgellau.

10. Mae gwella ein gwasanaeth trwsio wedi parhau i fod yn flaenoriaeth yn ystod y flwyddyn. Crewyd prosiect ar gyfer hyn a thra bod yna lawer iawn i'w gyflawni eto, roedd canlyniadau arolwg STAR ar gyfer boddhad tenantiaid yn galonogol ac yn adlewyrchu'r gwelliannau sydd wedi eu gwneud gyda 5% o gynnydd mewn boddhad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (boddhad bellach yn 67% gyda'r gwasanaeth trwsio yn 2015/16 o gymharu â 62% y flwyddyn flaenorol).

11. Gwelwyd gwelliant mewn perfformiad yn dilyn penderfyniad ar ddiwedd 2014 i gael tîm trydanol mewnol i ymdrin â gwaith ymatebol. Mae arbedion wedi eu gwneud o ran cost ond maent hefyd yn cwblhau mwy na 95% o waith trydanol brys, argyfwng ac arferol ar amser a hynny yn rheolaidd.

12. Mae gweithlu trwsio mewnol CCG hefyd wedi bod yn gweithio ar waith cwblhau SATC i orffen adnewyddu ceginau ac ystafelloedd ymolchi lle roedd tenantiaid wedi dewis peidio â chael y gwaith wedi ei wneud yn flaenorol. Maent yn gost effeithiol ac yn sicrhau boddhad tenantiaid uchel bob amser (>84%).

13. Yn dilyn llwyddiant llynedd wrth sefydlu datrysiad symudol ar gyfer gweithlu CCG lle caiff ceisiadau am waith eu gyrru i dabledi ac yn y blaen, ehangwyd gweithio symudol i Dîm Gwasanaethau Bro a Thîm Cefnogi Pobl. Cafwyd cymeradwyaeth hefyd i ymestyn gweithio symudol i wasanaethau eraill fel rhan o'r prosiect trawsnewid busnes lle rydym yn cynllunio i wella mynediad y cwsmer i wasanaethau.

14. Yn 2011, lansiwyd Cronfa Buddsoddi Cymunedol CCG gyda £1.25m ar gael dros gyfnod o 5 mlynedd. Cafodd grant flynyddol o £250mil ei ryddhau gyda £10,000 o gyllideb ar gael i grwpiau gwirfoddol a chymunedol i gynnal digwyddiadau, darparu hyfforddiant, gwella cyfleusterau neu i gyllido prosiectau fyddai'n gwella amgylchedd ein tenantiaid a phreswylwyr a chreu cymunedau cynaliadwy. Ym mis Mawrth 2016, roedd £1.2m wedi ei roi mewn arian grant o'r gronfa i 220 o grwpiau cymunedol yng Ngwynedd. Amcangyfrifir fod £6.3miliwn wedi ei ddenu mewn arian cyfatebol o ffynonellau ariannol allanol sy'n hwb sylweddol i economi Gwynedd.

15. Bu i CCG adolygu ei Bolisi Addasiadau i sicrhau'r defnydd fwyaf effeithlon o adnoddau er mwyn bod o fudd i'r nifer fwyaf posib o denantiaid o fewn yr adnodd sydd ar gael. Roedd hyn yn cyd fynd a gwaith y mae'r Cyngor wedi ei wneud yn dod a chofrestr o dai wedi eu haddasu at ei gilydd.

16. Yn ystod y flwyddyn, bu i CCG barhau i wella'r wybodaeth y mae'n ei gadw ar denantiaid er mwyn ein galluogi i dargedu ein gwasanaethau yn fwy effeithlon. Gwnaed gwaith i sicrhau bod y gweithdrefnau iawn mewn lle sy'n galluogi CCG i rannu data gyda'i bartneriaid gan gynorthwyo gweithio ar y cyd i gefnogi rhai o'n tenantiaid fwyaf bregus. Bydd hyn yn parhau i dderbyn sylw yn ystod 2016/17 fel bod gennym y wybodaeth yr ydym ei angen i ddatblygu gwasanaeth.

17. Mae CCG wedi bod yn gweithio i leihau effaith Diwygio Lles a Chredyd Cynhwysol. Roedd y gwaith yma yn cynnwys gweithio gyda Tasglu Taclo Tlodi'r Cyngor. Yn ystod 2015/16 cafodd 40 o denantiaid CCG eu rhoi ar Gredyd Cynhwysol.

18. Mae CCG wedi gweithio ar ymgyrch i farchnata cartrefi a oedd yn anodd eu gosod. Datblygwyd adran ar ein gwefan i hysbysebu eiddo sydd ar gael. Mae arwyddion "Ar Osod" hefyd wedi eu defnyddio ac roedd Aelodau'r Cyngor yn cael gwybod am yr eiddo hyn ac roedd CCG yn gofyn iddynt annog pobl addas leol i roi eu henwau ar y Gofrestr Tai Cyffredin. Mae'r gwaith yma wedi lleihau nifer yr eiddo anodd eu gosod o 36 ar gychwyn y cyfnod i 13 ar ddiwedd y cyfnod.

    Er mwyn sicrhau bod trefniadau Llywodraethol CCG yn cyd fynd yn well a Chod Llywodraethiant Tai Cymunedol y Llywodraeth ac i gefnogi gofynion y sefydliad yn y dyfodol, cynhaliwyd adolygiad cynhwysfawr o'r drefn llywodraethol yn ystod y flwyddyn. Arweiniodd hyn at adolygu'r Strwythur Llywodraethol a Rheolau Sefydlog a sefydlu pedwar pwyllgor gyda phwerau dirprwyedig. Mae'r rhain yn cynnwys:

    1 Pwyllgor Archwilio a Risg
    2. Pwyllgor Asedau ac Isadeiledd
    3. Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau
    4. Pwyllgor Adnoddau

3.3 Heriau o'n blaen yn y flwyddyn nesaf:

1. Parhau i wella boddhad cwsmeriaid. Elfen allweddol fydd parhau i ganolbwyntio ar drawsnewid ein gwasanaeth Trwsio.
2. Ehangu gweithio symudol i wasanaethau eraill
3. Parhau i gyflwyno strategaeth ddatblygu CCG a chyrraedd targedau uchelgeisiol a osodwyd ar gyfer darparu tai fforddiadwy newydd.
4. Parhau i leihau effaith ariannol mesurau Diwygio Lles ar CCG fel busnes ac chefnogi ein tenantiaid yn ystod newidiadau. Tra bod cyflwyno Credyd Cynhwysol (CC) yn ei gyfanrwydd wedi ei oedi, mae CCG yn ymdrin â thua 40 o denantiaid sydd ar CC yn barod. Bydd cymhwyso Lwfans Tai Lleol (Local Housing Allowance - LHA) i eiddo rhent cymdeithasol o 1af Ebrill 2018 ar gyfer pob tenantiaeth newydd ar ôl 1af Ebrill 2016 yn her sylweddol ynghyd â rhewi cyfraddau LHA am 4 blynedd. Bydd pobl sengl o dan 35 mlwydd oedd sy'n ymgeiswyr budd-dal ond yn gallu gwneud cais am lwfans cyfradd ystafell a rennir (tua.. £58 yr wythnos), ni fydd yn ddigon o arian i dalu rhent eiddo 1 ystafell wely. Bydd hyn yn her sylweddol i CCG ac i dîm digartrefedd y Cyngor.
5. Cyd-weithio a gwella perfformiad y Tîm Opsiynau Tai.
6. Lleihau'r canran o denantiaid sy'n trosglwyddo i gartrefi gwahanol yn ein stoc tai. Ar hyn o bryd mae 35% o denantiaid yn gwneud hyn sy'n eithaf uchel ac mae'n cynyddu llwyth gwaith a chostau i'r Tîm Opsiynau Tai a thimau Gosod a Thai Gwag CCG.
7. Paratoi ar gyfer Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a fydd yn dod i rym yn 2017. Bydd pob tenant yn cael cytundeb tenantiaeth newydd yn seiliedig ar fodel wedi ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Bydd angen i CCG sicrhau bod ei

bolisiau a gweithdrefnau yn cyd fynd a'r gytundeb newydd a sicrhau bod tenantiaid yn gwybod am hyn ac ymdrin ag unrhyw bryderon a all fod ganddynt.

8. Recriwtio i swydd wag y Cyfarwyddwr Cwsmeriaid a Chymunedau
9. Prif ffrydio cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws y busnes drwy ddatblygu a rhoi Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar waith.
10. Datblygu rhai o ddarganfyddiadau'r adroddiad asesu effaith CCG (adroddiad PACEC) er mwyn dylanwadau blaenoriaethau busnes CCG, yn benodol, gweithio mewn partneriaeth.

**4.0 Gwaith buddsoddi Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) a gwaith buddsoddi cysylltiol arall**

4.1 Y gwariant ar waith cyfalaf a buddsoddi yn 2015/16 oedd £9.0m gyda £1.7m wedi ei wario ar adeiladu cartrefi newydd.

4.2 Yn dilyn llwyddiant CCG wrth gaffael contractwyr mewn ffordd arloesol i ymgymryd â gwaith SATC, mae CCG wedi parhau gyda'i ymrwymiad i annog contractwyr lleol ymgymryd â gwaith buddsoddi. Yn ddiweddar, mae CCG wedi sefydlu tri fframwaith a fydd yn sicrhau bod gwaith yn cael ei gynnal i sicrhau ein bod yn parhau i gydymffurfio a Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae'r fframweithiau hyn yn cynnwys y gwaith buddsoddi cyfalaf canlynol - gwaith allanol, llwybrau, ffensio ac asedau cysylltiol a gwresogi. Mae nifer o gontractwyr lleol wedi eu penodi i'r fframweithiau hyn ac mae targedau craidd Recriwtio ac Hyfforddiant wedi ei Dargedu wedi eu cynnwys yn y fframweithiau a chaiff contractwyr eu mesur yn erbyn rhain yn rheolaidd. Mae CCG wedi ymrwymo i drin contractwyr yn agored a chyfartal drwy ddefnyddio cystadlaethau bychain i roi cytundebau o dan y fframweithiau. Rydym wedi parhau i rannu'r gwaith i becynnau daearyddol llai er mwyn annog ein holl gontractwyr, ta waeth pa mor fychan neu fawr ydynt, i geisio am waith. Mae'r fframweithiau yn rhoi diogelwch i CCG o ran trefn llywodraethu'r fframweithiau hyn dros y pedair blynedd nesaf a'r swm mwyaf sy'n daladwy am y gwaith ond yn ein galluogi hefyd i gael mwy o gystadleuaeth wrth gynnal cystadlaethau bychain.

4.3 Mae parhau i gefnogi a chreu cyfleon hyfforddiant a chefnogaeth drwy ein darparwyr hyfforddiant yn parhau i fod yn uchel ar agenda CCG. Mae heriau wedi eu creu oherwydd llai o wariant, cyfaint gwaith a natur y cytundebau gan eu bod yn fframweithiau. Mae ffocws y gwaith wedi newid dros y 12 mis diwethaf o recriwtio prentisiaid 'newydd' i gadw rhai presennol ynghyd â chynnig lleoliadau gwaith a cyfleon profiad gwaith. Mae pob fframwaith yn parhau i gynnwys egwyddorion 'i2i Can Do Toolkit' Llywodraeth Cymru lle mae disgwyl i ddarparwyr gwasanaeth greu 52 wythnos hyfforddiant fesul £1m o wariant ond yn gymesur i werth sydd wedi ei greu ar gyfer pob darparwr o fewn pob fframwaith. Mae hyn yn caniatáu cysondeb yn ffordd CCG o fonitro lefelau prentisiaid/hyfforddiant yn ein holl fframweithiau drwy ein DPA newydd. Mae'r canlyniadau wedi bod yn llwyddiant fel sydd wedi ei grybwyll ym mhwynt 3.2 (4&5) uchod.

4.4 Mae Tabl 1 isod yn nodi statws masnachol a chytundebol ar gyfer bob un o'r pecynnau cytundeb amrywiol.

**Tabl 1: Statws Masnachol a Chytundebol pecynnau cytundeb**

| Gweithgaredd | Fframwaith Ffensio, Llwybrau ac Asedau Cysylltiol | Asesiadau Risg Tân | Fframweithiau Allanol | An-nhraddodiadol | Masnach Mewnol | Fframwaith Wresogi |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tendr** | Cyflawn | Cyflawn | Cyflawn | Cyflawn | Cyflawn | Cyflawn |
| **Cymeradwyaeth Bwrdd/Pwyllgor** | Cyflawn | Cyflawn | Cyflawn | Cyflawn | Cyflawn | Cyflawn |
| **Cytundeb wedi'i lofnodi** | Wedi cychwyn | Wedi cychwyn | Wedi cychwyn | Wedi cychwyn | D/B | Cyflawn |
| **Cwblhau** | 4 mlynedd | Mawrth 2017 | 4 mlynedd | Hydref 2016 | 4 mlynedd | 4 mlynedd |
| **Contractwr (wyr)** | Lovell<br>Gelli<br>G H James<br>Dinas Contracting Cyf | Trwsio | Lovell<br>Novus<br>Sustainable Building Solutions<br>Wates Living Space<br>Evans, Wilson and Evans<br>G H James | Wilmott Dixon | Trwsio | Morgan Sindall<br>Robert Heath<br>AER<br>Aspect<br>P H Jones<br>Cliftons |

4.5 Mae Tabl 2 isod yn dangos cydymffurfiaeth CCG gyda SATC yn ôl elfennau ar 31ain Mawrth 2016. Dyma'r ffigyrau sy'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru fel rhan o'u trefniadau monitro SATC blynyddol. Bydd aelodau yn nodi bod lefelau cydymffurfio wedi cynyddu yn unol â faint o waith sydd wedi ei gwblhau fel rhan o'r rhaglen fuddsoddi.

**Tabl 2: Stoc sy'n cydymffurfio â SATC yn ôl yr elfen ar 31ain Mawrth 2016**

| **Elfen** | **Stoc ar 31ain Mawrth 2016** | **Stoc yn cydymffurfio'n llawn * yn ôl elfen ar Ddydd Iau, 31 Mawrth 2016** | **Stoc yn cydymffurfio* yn ôl elfen yn amodol ar "fethiannau derbyniol" ar Ddydd Iau, 31 Mawrth 2016** | **Stoc Ddim yn cydymffurfio * yn ôl elfen** | **Canran o gydymffurfiaeth / cydymffurfiaeth gyda "methiannau derbyniol" ar gyfer yr elfen** | **Blwyddyn disgwylir cydymffurfiaeth lawn ar gyfer holl stoc ar gyfer yr elfen** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **a** | **b** | **c** | **d** | **e** | **f** |
| Toeau ac elfennau yn ymwneud â nhw | **6,238** | 6,238 | 0 | 0 | **100%** | |
| Ffenestri | **6,238** | 6,236 | 2 | 0 | **100%** | |
| Drysau Allanol | **6,238** | 6,238 | 0 | 0 | **100%** | |
| Ceginau | **6,238** | 5,747 | 443 | 48 | **99%** | 2020 |
| Ystafelloedd Ymolchi | **6,238** | 5,949 | 242 | 47 | **99%** | 2020 |
| Cyfradd Ynni (SAP≥65) | **6,238** | 4,779 | 1,459 | 0 | **100%** | |
| Systemau Gwres Canolog | **6,238** | 6,183 | 55 | 0 | **100%** | |
| Systemau Trydanol | **6,238** | 5,788 | 414 | 36 | **99%** | 2020 |
| Canfyddion Tân trydanol | **6,238** | 6,238 | 0 | 0 | **100%** | |
| Gerddi a storfa allanol hyd at ac yn cynnwys ffin yr eiddo | **6,238** | 6,238 | 0 | 0 | **100%** | |

## 5.0 Trefniadau ymgynghori gyda thenantiaid a phrydleswyr

5.1 Ymgynghori gyda Tenantiaid a Phreswylwyr

Prosiect Adolygu Fframwaith Cyfranogi
Yn ystod 2015/16 cynhaliwyd prosiect i adolygu'r fframwaith cyfranogi tenantiaid sydd wedi bod yn ei le ers dyfodiad CCG yn 2010 ac i ddatblygu strategaeth gyfranogi newydd ar gyfer 2016-2020.
Mae buddion y prosiect wedi eu hadnabod fel a ganlyn:

- ✓ Mae ein cwsmeriaid yn teimlo y gallent ddylanwadu y gwasanaethau y maent yn eu cael.
- ✓ Gall ein holl gwsmeriaid gymryd rhan os ydynt eisiau.
- ✓ Cyfranogiad yn werthfawr ac effeithiol.
- ✓ Cyfranogiad yn fwy cynrychioliadol o'n tenantiaid.

Fframwaith Ymgynghori Newydd CCG
Yn ystod 2015/16 gynhaliwyd ymgynghoriad ac ymchwil sylweddol gyda rhanddeiliaid perthnasol, bu i hyn ein galluogi i ddatblygu fframwaith a strategaeth newydd i gwrdd ag anghenion CCG a'n cwsmeriaid nawr ac yn y dyfodol.

Bydd y fframwaith newydd yn cynnig ystod eang o gyfleon cyfranogi a bydd yn rhoi cydbwysedd gwell rhwng dulliau traddodiadol o gyfranogi a dulliau fwy arloesol e.e. Dulliau digidol, cyfranogi anffurfio ayb.

Datblygu Strategaeth Cyfranogiad Cwsmeriaid 2016-2020
Mae cael strategaeth gadarn ar waith i gefnogi darparu'r fframwaith ymgynghori newydd yn hanfodol. Yn ystod 2015/16, datblygwyd strategaeth newydd yn lle Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol 2012/15.

Bydd rhaglenni gwaith penodol yn cael eu datblygu dros y 4 mlynedd nesaf a fydd yn sicrhau bod cyfranogi a chymryd rhan yn parhau i fod yn ystyriaeth allweddol wrth i ni ddatblygu ein cynlluniau gwella gwasanaeth, ein prosiectau corfforaethol, gweithgareddau caffael ac adnabod anghenion a dyheadau ein cwsmeriaid.

Mae'r canlynol wedi eu hadnabod fel amcanion allweddol y strategaeth cyfranogi cwsmer newydd.

i. Rhoi fframwaith cyfranogiad newydd ar waith i ddylanwadu'r gwasanaethau yr ydym yn eu rhoi i gwsmeriaid
ii. Sicrhau bod ein gwasanaethau yn deg, agored a hygyrch drwy gyfranogi effeithiol
iii. Rhoi grym i'n cwsmeriaid i wella eu sgiliau a hyder
iv. Gweithio mewn partneriaeth gyda chymunedau er mwyn galluogi a hybu cyfranogiad ehangach

5.2 Ymgynghori gyda Prydleswyr

Bu i CCG barhau i ddatblygu ei berthynas gyda'i Brydleswyr. Mae ymgynghori gyda Prydleswyr wedi ei gynnwys yn ein prosesau caffael er mwyn sicrhau y gall CCG adennill costau gan Brydleswyr mewn ffordd briodol. Mae CCG wedi bod yn gweithio gyda Cartrefi Cymunedol Cymru i ddatblygu Llawlyfr Prydleswyr - ymgynghorwyd gyda Prydleswyr CCG ar gynnwys y llawlyfr a chawson adborth werthfawr. Mae gwaith yn parhau i wella ein prosesau fel bod gan brydleswyr gyfle i roi sylwadau ar opsiynau i drwsio'r adeilad y maent yn byw ynddo.

5.3 Cyfranddalwyr

Roedd gan CCG 49 o gyfranddalwyr ar ddiwedd Mawrth 2016. Gall bob tenant barhau i wneud cais i ddod yn gyfranddaliwr unrhyw bryd gyda phob cais yn cael ei ystyried gan y Bwrdd yn unol â'r Rheolau.

Ceisiwyd cynyddu'r nifer o gyfranddalwyr yn ystod y flwyddyn gyda sawl digwyddiad cymunedol wedi eu mynychu lle rhannwyd gwybodaeth yn manylu'r budd o ddod yn gyfranddaliwr.

5.4 Prif lwyddiannau:

1. <u>Newyddlen Tenantiaid</u> - Derbyniodd CCG wobr am y Newyddlen Tenantiaid Gorau yn Noson Wobrwyo Cysylltiadau Cyhoeddus Tai Cymdeithasol Cymru . Ar hyn o bryd rydym yn edrych eto ar y newyddlen tenantiaid gan weithio gyda chwsmeriaid, staff ac aelodau Bwrdd. Yr amcan yw eu gwneud yn fwy darllenadwy a sicrhau bod y newyddlen yn cwrdd ag anghenion a disgwyliadau tenantiaid. Bydd yr adolygiad yn edrych at ddatrysiadau digidol ar gyfer rhannu'r newyddlen.

2. <u>Taith Stadau yn ystod yr Haf</u>
   Bu i ni barhau gyda'r rhaglen o deithiau ar stadau a oedd yn cyd fynd a'n 5ed penblwydd a digwyddiadau cymunedol ym mhob ardal. Bu i ni ddefnyddio'r ymweliadau i gasglu sylwadau cyffredinol ac ymgynghori ar y fframwaith gyfranogi newydd. Bu inni ymweld a'r ardaloedd canlynol:

   Pasg: Tywyn, Cricieth, Llanberis
   Haf : Trawsfynydd, Abersoch, Mynytho, Tremadog, Bontnewydd

3. <u>Tîm Ansawdd ar gyfer Tenantiaid</u>
   Mae'r Tîm Ansawdd ar gyfer Tenantiaid yn cynnwys tenantiaid o Bartneriaeth Tenantiaid a Phreswylwyr CCG. Pwrpas y tîm yw gweithio mewn partneriaeth gyda Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) i geisio gwella y gwasanaethau y mae CCG yn rhoi i'w denantiaid.
   Sefydlwyd y grŵp yn 2014 gyda'r aelodau yn awyddus iawn i wneud mwy na gwella polisïau a gweithdrefnau ac eisiau cymryd rhan iawn wrth adolygu a phrofi gwasanaethau y mae tenantiaid yn ei cael gan CCG a'i gontractwyr. Drwy weithio gyda staff CCG a siarad yn uniongyrchol gyda tenantiaid, mae'r tîm wedi gweld sut mae gwasanaethau gwahanol yn gweithio o ran darparu ynghyd ag adborth a lefelau boddhad cwsmeriaid.

Cafodd gwaith y tîm ei gydnabod yng Ngwobrau Blynyddol TPAS Cymru (Tenant Participation Advisory Service) 2015 gan ennill 17 cais arall i ennill y 'Roy Parry Service Improvement Award'.

4. Prosiectau Cymunedol

Cynllun Wardeiniaid Ifanc CCG
Mae ein Cynllun Wardeiniaid Ifanc yn mynd o nerth i nerth ac yn ystod haf 2015 plant Ysgol Pen Y Bryn ym Methesda ac Ysgol Maesincla, Caernarfon a gymerodd ran.

Dyma chweched flwyddyn y cynllun lle bu i 14 o blant gymryd rhan, y nifer fwyaf hyd yn hyn.

Bu i'r plant, o flwyddyn 5 yr ysgolion, gael eu tywys gan Wardeiniaid Bro CCG yn ystod y 5 wythnos dros haf 2015. Cawsant gyfle i ddysgu am waith dydd i ddydd y warden ac ymweld a dysgu gan nifer o bartneriaid eraill fel yr Heddlu, Gwasanaeth Tân, Ambiwlans Awyr, Llys yr Ynadol ayb.

Amcan y cynllun yw helpu codi ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc o effaith troseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol ar ein cymunedau. Roedd y cynllun eleni yn llwyddiant ysgubol, y gorau eto a chadarnhawyd hyn gan adborth cadarnhaol iawn gan y plant, eu rhieni a'n partneriaid.

Cynllun Sêr Cymunedol CCG
Lansiwyd y cynllun newydd ym mis Ebrill 2015 gyda'r amcan o wobrwyo'r tenantiaid hynny sy'n gwneud gwahaniaeth yn ein cymunedau.

Mae yna bedwar categori gwahanol i'r cynllun - cymydog da, gwobr gwyrdd, gwobr pobl ifanc a gwobr syniad da. Mae'r cynllun wedi bod yn llwyddiant gydag enillwyr o bob categori, ar draws y sir.

Tîm Ymyrraeth Cynnar
Un o'r prif heriau sy'n wynebu'r Tîm Gwasanaethau Bro oedd targed DPA o ddatrys 92% o achosion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn llwyddiannus. I'n cynorthwyo i gyrraedd hyn, bu i CCG dderbyn gwahoddiad gan Heddlu Gogledd Cymru i greu Tîm Ymyrraeth Cynnar gyda nifer o asiantaethau i ymdrin â rhai sy'n galw am YGG dro ar ôl tro ynghyd â'r rhai sydd mewn risg o YGG oherwydd eu bod yn fregus. Mae'r Gwasanaeth Tân, Heddlu a Chymdeithasau Tai eraill hefyd wedi ymuno a'r Tîm. Yr ymrwymiad i CCG oedd rhoi Swyddog o'r tîm i weithio un bore'r wythnos ym Mhencadlys yr Heddlu yng Nghaernarfon ac yn ystod yr amser yma maent yn adolygu pob digwyddiad Troseddol a YGG yn ein stoc a oedd wedi eu cyfeirio at yr Heddlu. Cafodd y Swyddog ei sgrinio a chael hyfforddiant i ddefnyddio Systemau Rheoli Cofnodion yr Heddlu ynghyd â gallu gweithio ar y cyd â systemau CCG, diolch i'n hisadeiledd TG. Bu i'r Bartneriaeth helpu CCG cyrraedd yr amcan o ddatrys 98% o achosion YGG yn llwyddiannus. Cafodd y Tîm Ymyrraeth Cynnar hefyd ei gydnabod gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fel ei Bartner Diogelwch Cymunedol y Flwyddyn.

5.5 Heriau o'n blaen yn y flwyddyn nesaf:

Y brif her i'r Tîm Cyswllt Cymunedol dros y 12 mis nesaf fydd sicrhau llwyddiant y Fframwaith Gyfranogi newydd a'r Strategaeth Cyfranogi Cwsmeriaid. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn ein galluogi i roi ein tenantiaid wrth galon ein gwaith. Mae'n her gyson cael tenantiaid i gymryd rhan gyda ni. Mae'r fframwaith newydd yn darparu dulliau newydd a chyffroes ar gyfer cyfranogi a'r gobaith yw y byddwn yn denu mwy o'n cwsmeriaid i gymryd rhan gan hefyd caniatáu rhai sydd yn cymryd rhan yn barod i ddatblygu eu sgiliau a gwybodaeth gan eu gwneud yn fwy effeithiol yn eu rolau. Her arall dros y flwyddyn nesaf fydd datblygu Strategaeth Cynhwysiant Digidol (CD). Er ein bod ni ar hyn o bryd yn ymgymryd â nifer o weithgareddau CD mae ein dull yn un adweithiol yn hytrach nag un strategol a bydd strategaeth yn ein galluogi i ganolbwyntio ar y gwaith ac i wneud gwell defnydd o'r adnoddau sydd ar gael i ni.

**6.0 Goblygiadau o dan y Cytundeb (Cytundebau Enwebiadau ac Asiantaeth Tai, Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Phrotocol Budd-dal Tai)**

6.1 Partneriaeth Cofrestr Tai Cyffredin

Daeth Cofrestr Tai Cyffredin Gwynedd i rym ar y 10fed o Fedi 2012, mae'r trefniadau o dan Gytundeb y Bartneriaeth yn disodli'r Gytundeb Enwebiad a Thai. Mae'r Tîm Opsiynau Tai yng Nghyngor Gwynedd bellach yn gyfrifol am reoli'r Gofrestr Tai Cyffredin yn unol â'r Polisi Gosod Cyffredin.

6.2 Prif lwyddiannau:

- Bu i CCG ar y cyd gyda'r Tîm Opsiynau Tai osod 586 o gartrefi CCG yn ystod 2015/16.
- Cynhaliwyd adolygiad o'r Polisi Gosod Cyffredin i gynnwys newidiadau i ymdrin ag ymgeiswyr digartrefedd yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014 ac er mwyn ein galluogi i atal trosglwyddo pan fydd amodau tenantiaeth wedi eu torri.
- Gweithio ar y cyd ar gynyddu ymwybyddiaeth o gynlluniau adeiladu o'r newydd CCG ym Maesgeirchen er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr sy'n cwrdd â'r polisi gosod lleol wedi cofrestru ar y gofrestr tai.

6.2.1 Pethau na aeth cystal:

- Mae linc TG gyda'r Cyngor (Citrix) yn araf ac yn annod cael mynediad iddo ac yn gofyn i swyddogion CCG bod yn y swyddfa i gael mynediad i'r wybodaeth. Mae'r cyfuniad hyn yn effeithio ar allu swyddogion CCG i gael golwg ar wybodaeth y rhai hynny sy'n ymgeisio am dŷ.
- Roedd ansawdd rhestrau byr darpar denantiaid a dderbyniwyd gan y Tîm Opsiynau Tai yn parhau i fod yn anfoddhaol mewn rhai ardaloedd ac ar gyfer rhai mathau o eiddo. Mae hyn yn effeithio ar incwm CCG ac mae wedi achosi pryder yn ystod y flwyddyn.
- Ni chafodd gweithgareddau wedi eu cytuno gan TOT eu cwblhau neu eu bod heb lwyddo i gwrdd ag amserlenni. Dyma enghreifftiau pwysig : Creu holiadur boddhad cwsmer, trefnu diwrnod i ffwrdd ar gyfer partneriaid, gwneud hi'n

haws cael mynediad i'r Gofrestr Tai, adolygu ceisiadau bob 6 mis a darparu rhestrau o denantiaid sydd wedi gofyn am gael trosglwyddo.

6.3 Heriau o'n blaen yn y flwyddyn nesaf:

1. Gweithio gyda phartneriaid a'r Cyngor i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y gwasanaeth Tîm Opsiynau Tai. Dylai hyn gynnwys gwella gwefan y Cyngor i roi arweiniad a chyngor gwell i ymgeiswyr am eu hopsiynau tai; hefyd darparu cyfleuster fel y gall ymgeiswyr gofrestru eu cais ar lein er mwyn cynyddu hygyrchedd y gofrestr tai cyffredin i grwpiau priodol. Yn unol â rhaglen gweithio'n ystwyth CCG, archwilio'r posibilrwydd o rhoi mynediad i swyddogion CCG i'r wybodaeth ar y gofrestr heb orfod cysylltu drwy Citrix.
2. Ar ddiwedd Mawrth 2016 roedd 47% o ymgeiswyr ar y Gofrestr Tai yn sengl gyda 119 o'r rhain o dan 25 a 75 lle'r oedd yna ddyletswydd digartrefedd tuag atynt. Wrth i Gap Lwfans Lleol ddod i rym o'r 1af Ebrill 2018, ni fydd pobl sengl ar fudd-dal lles, ac yn benodol y rhai o dan 35 oed, yn gallu fforddio talu rhent cymdeithasol. Bydd rhoi cartrefi i'r categori yma o ymgeiswyr yn her sylweddol i CCG a'r Cyngor.
3. Parhau i fodelu effaith newidiadau sydd wedi eu cynllunio i fudd-dal Lles ar allu CCG i osod cartrefi a sicrhau hyfywedd ariannol CCG.
4. Cytuno ar newidiadau i'r Polisi Gosod Cyffredin gyda phob partner a'r Cyngor i sicrhau bod cartrefi yn cael eu cynnig i'r rhai sy'n gallu fforddio'r rhent a chostau rhedeg y cartref fel eu bod yn gallu cynnal eu tenantiaethau.

6.4 Cytundebau Lefel Gwasanaeth

Bu i Gyngor Gwynedd gyflawni'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLG) canlynol ar ran CCG yn ystod blwyddyn ariannol 2015-2016:

1. Gwasanaethau Cynnal Tir.
2. Cefnogaeth TGCh (darparu a chefnogi Rhwydwaith Ardal Eang a Chefnogi Rhaglenni – Geographical Information System" (GIS))
3. Gwasanaethau Rheoli Pla.
4. Gwasanaethau Carthffosiaeth.
5. Gwasanaeth Systemau Teledu Cylch Cyfyng (TCC).
6. Gwasanaethau Golau Stryd.

Hefyd, bu i Gyngor Gwynedd gyflawni'r cytundebau canlynol ar ran CCG wedi iddynt gael y cytundebau yn dilyn proses dendro gystadleuol:

1. Gwasanaethau'r Gyflogres.
2. Gwasanaethau Glanhau Cymunedol (Ardal Dwyfor a Meirionnydd)

Ymhellach i hyn, bu i Gyngor Gwynedd gyflawni agweddau penodol o Wasanaethau Cyfreithiol i CCG ar sail dim cytundeb.

Darparir datganiad ar gyfer bob CLG isod:

1. Gwasanaethau Cynnal a Chadw Tir - mae'r gytundeb bresennol wedi ei

ymestyn hyd Rhagfyr 2016. Bydd proses caffael OJEU yn cael ei gynnal yn ystod Hydref 2016, gyda'r bwriad o ddechrau'r gytundeb newydd ym mis Chwefror 2017. Mae perfformiad y gytundeb bresennol yn parhau i fod yn foddhaol.

2. Cefnogaeth TGCh (darparu a chefnogi Rhwydwaith Ardal Eang (WAN) a Chefnogi Rhaglenni – “Geographical Information System” (GIS)). Caiff perfformiad y gytundeb WAN ei fonitro yn fisol. Caiff pob problem ei drin yn effeithiol ac amserol. Doedd dim newidiadau mawr o ran darparu cytundeb yn ystod y 12 mis. O ran y gytundeb GIS, mae’r adran Tir a Chyfleusterau yn defnyddio’r gwasanaeth yn gyson. Mae haen newydd wedi ei ychwanegu i’r system i alluogi Tîm Trwsio fonitro gwaith trwsio yn fanwl. Ym mlwyddyn ariannol 2016/17 bydd gofynion GIS CCG yn cael eu dadansoddi o ran ei ofynion yn y dyfodol.
3. Gwasanaethau Difa Pla - Mae’r CLG wedi ei ymestyn am 12 mis hyd Ebrill 2017. Mae’r gwasanaeth yn un effeithiol a chaiff ei gyflawni o fewn yr amserlenni gofynnol.
4. Gwasanaethau Draeniau - mae’r CLG wedi ei ymestyn hyd Ebrill 2018 gyda’r bwriad o ymgymryd â phroses gaffael OJEU i roi cytundeb newydd ar waith o’r dyddiad hwnnw. Er bod y gwasanaeth a gaiff ei ddarparu gan Cyngor Gwynedd yn y gytundeb o safon uchel, mae yna bryderon o ran y lefel gwariant o fewn y gytundeb gan gynnwys y nifer bach o ad-daliadau i Dŵr Cymru yn y gytundeb. O ganlyniad i hyn, bydd CCG yn adolygu protocolau mewnol y gytundeb yn ystod haf 2016.
5. Gwasanaethau Systemau Teledu Cylch Cyfyng (TCC) - Bu i’r gwasanaethau a ddarparwyd i CCG o dan y gytundeb waethygu yn ystod y flwyddyn. Nid oedd Cyngor Gwynedd yn fodlon rhyddhau darnau o recordiadau TCC ar gyfer dadleuon cyfreithiol penodol. Yr unig fudd i denantiaid CCG o’r gwasanaeth yma yw’r sicrwydd y mae’n ei roi iddynt. Ystyrir ei fod yn wasanaeth drud gan mai dim ond 500 o eiddo CCG sy’n cael budd ohono ac mae cyfraniadau ariannol partneriaid eraill yn llawer iawn is na chyfraniad CCG. O ganlyniad, mae CCG wedi cynnig beth maent yn gredu sy’n gynnig ariannol rhesymol i barhau i gael y gwasanaeth yma am gyfnod. Mae trafodaethau rhwng y ddau barti yn parhau.
6. Gwasanaethau Golau Stryd - estyniad i drefniadau presennol gyda Chyngor Gwynedd hyd Ebrill 2017. Mae’r gwasanaeth yn parhau i fod yn effeithiol. Mae Cyngor Gwynedd wastad yn cyrraedd y DPA o dan y gytundeb. Mae rhaglen ar fin cael ei roi ar waith i ddiweddaru’r golau i rai LED. Mae perthynas waith da wedi ei gynnal o dan y gytundeb.
7. Gwasanaethau’r Gyflogres - Enillodd Cyngor Gwynedd y gytundeb yn dilyn proses gaffael gystadleuol. O ganlyniad i’r gwasanaeth effeithiol sydd wedi ei ddarparu, mae’r gytundeb wedi ei hymestyn yn ffurfiol hyd at fis Mawrth 2018.
8. Gwasanaethau Glanhau Cymunedol - Bu i Gyngor Gwynedd gyflawni’r gytundeb lanhau yn ardal Dwyfor a Meirionnydd hyd at fis Mawrth 2016. Roedd y gwasanaeth o safon dda iawn. Pan roedd cwynion yn cael eu codi, cawsant sylw gan reolwr y gytundeb. Roedd dulliau cyfathrebu yn agored ac effeithiol drwy gydol y gytundeb. O ran y cytundebau newydd a gafodd eu tendro drwy brosesau caffael OJEU, roedd Cyngor Gwynedd yn llwyddiannus gyda’r lotiau yn ardal Bangor a Dwyfor. Yn ystod cyfnod safiad stond y gytundeb, bu i Gyngor Gwynedd dynnu eu cynnig ar gyfer lot Bangor yn ôl. Gan eu bod wedi colli lot Meirionnydd, mae trafodaethau TUPE yn mynd rhagddynt rhwng

Cyngor Gwynedd a Anglesey Contract Cleaning, a oedd yn llwyddiannus gyda’r gytundeb.

9. Gwasanaethau Cyfreithiol - mae adran gyfreithiol Cyngor Gwynedd yn parhau i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol ar ran CCG ar faterion fel Hawl i Brynu; trawsgludo a dadleuon am derfynau. Hefyd, mae Cyngor Gwynedd yn parhau i ddarparu gwasanaethau cyfreithiol yn ystod absenoldeb salwch a chyfnodau o wyliau. Mae’r gwasanaeth yn un o safon uchel. Does dim Cytundebau Lefel Gwasanaeth ffurfiol mewn lle ar gyfer y trefniadau hyn.

6.5 Prif lwyddiannau:

1. Mae perthynas waith da wedi ei chynnal gyda staff Cyngor Gwynedd yn ystod y cyfnod lle bu i'w cyfraniad barhau yn unol â'r CLG perthnasol er gwaethaf newidiadau o ran darparu gwasanaeth o fewn nifer o gytundebau.
2. Mae gwasanaeth Cynnal a Chadw Tir Cyngor Gwyned wedi ymateb yn hyblyg i ofynion amrywiol CCG o dan y gytundeb ac maent i’w canmol am hyn.
3. Mae CCG wedi ymestyn telerau nifer o CLG sy’n destament i safon y gwasanaethau a dderbynnir, y prisiau cystadleuol a pherthnasau gwaith cadarnhaol rhwng y ddau barti.

6.5.2 Pethau na aeth cystal:

1. Mae’r gwasanaeth a ddarperir o fewn y gytundeb TCC yn her i CCG ac mae wedi effeithio ar drafodaethau ynglŷn ag adnewyddu’r CLG. Mae’r diffyg mynediad i recordiadau ynghyd â chyfraniad ariannol CCG mewn cymhariaeth â phartneriaid eraill wedi annog CCG i ail werthuso gwerth y gytundeb iddo’i hun ac i denantiaid.
2. Mae’r lefel o wariant ar y CLG Draeniau yn bryder. Does dim dadlau am ansawdd y gwasanaeth a ddarperir o fewn y gytundeb, fodd bynnag, mae’r lefel isel o ad-daliadau i Dŵr Cymru yn achosi pryder. Bydd CCG yn adolygu’r protocolau draenio er mwyn ymdrin â’r problemau hyn.

6.6 Heriau o'n blaen yn y flwyddyn nesaf:

1. Cwblhau caffael OJEU Cynnal a Chadw tir.
2. Cytuno ar ymestyn CLG i’r CLG eraill o fewn amserlen dynn. Mae swyddogion o’r ddau barti wedi cytuno i delerau ac amodau ymhob cytundeb unigol; mae angen i uwch swyddogion nawr arwyddo'r cytundebau.
3. Datrys trafodaethau presennol mewn perthynas â CLG TCC.
4. Mae angen i CCG bennu ei ofynion tymor hir mewn perthynas â beth sydd ei angen o system GIS yn y dyfodol.

6.7 Protocol Budd-dal Tai

Mae Protocol Budd-dal Tai yn nodi ymrwymiadau ar gyfer Cyngor Gwynedd a CCG i weithio gyda’i gilydd er mwyn sicrhau bod rhent yn cael ei dalu ar amser i denantiaid. Mae Budd-dal Tai yn ffynhonnell incwm pwysig i CCG ac mae’n hanfodol bod cytundebau lefel gwasanaeth a safonau yn cael eu cadw i sicrhau bod hawliadau gan denantiaid yn cael eu prosesau a gweinyddu yn gyflym.

6.8 Prif lwyddiannau:

1. Mae CCG a'r Cyngor wedi parhau i weithio'n dda gyda'i gilydd i ymdrin ag effaith Diwygio Lles. Mae'r Dreth Tan Feddiannu (Treth Llofft), Cap Budd-dal a newidiadau i fudd-dal rhai sy'n hawlio yn gyffredinol wedi golygu bod y cyfathrebu wedi gorfod bod yn dda er mwyn ymdrin â hawliadau cyn gynted ag sy'n bosib i atal ôl-ddyledion rhent. Bydd unrhyw ymholiad neu anghysondeb 'ad-hoc' yn cael ymateb prydlon.
2. Mae'r Cyngor wedi darparu gwybodaeth am denantiaid sydd wedi eu heffeithio gan y cap budd-dal a Threth Llofft sydd wedi caniatáu CCG i adnabod tenantiaid bregus sydd angen cefnogaeth ac arweiniad ac i gwblhau hawliadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn gan uchafu incwm CCG ymhellach.
3. Mae perthynas waith da yn gyffredinol wedi golygu bod ymholiadau cyffredinol a phroblemau wedi eu cadw i isafswm. Mae'r Cyngor wedi ein cynghori, rhannu gwybodaeth lle bo'n bosib ac wedi sicrhau cyfathrebu yn dda sydd wedi ein helpu i ymdrin â materion o ddydd i ddydd.

6.9 Heriau o'n blaen yn y flwyddyn nesaf:

1. Parhau i gyfathrebu'n dda a meithrin y berthynas waith gyda'r Cyngor er mwyn ymdrin â rheolau Budd-dal Tai newydd fel canslo / oedi hawliadau a chanllawiau ôl-ddyddio.
2. Parhau i weithio gyda Cyngor Gwynedd, y DWP a phartneriaid eraill yn Nhasg Diwygio Lles Gwynedd er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ar gael i gynorthwyo tenantiaid drwy newidiadau mewn deddfwriaeth y llywodraeth fel Lwfans Tai Lleol, ac yn bwysicach darparu cefnogaeth a chanllaw i denantiaid wrth iddynt newid i Gredyd Cynhwysol.

## 7.0 Protocol Aelodau Etholedig

Bydd Aelodau yn ymwybodol o brotocol aelodau etholedig a gafodd ei gyflwyno wrth drosglwyddo fel bod yna un pwynt cyswllt o fewn CCG ar gyfer aelodau. Mae pob cais a ddaw gan aelod (ar wahân i rai o natur cynnal a chadw dydd i ddydd) yn cael eu cofnodi, eu gweithredu a'u monitro o fewn CCG gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth gwell a mwy ymatebol i aelodau.

Mae CCG yn teimlo bod perthynas waith cryf ac effeithiol wedi ei adeiladu gydag aelodau ac yn teimlo bod y berthynas yn tyfu i bartneriaeth sy'n symud cymunedau yn eu blaen.

## 8.0 Gweithio mewn partneriaeth ar eitemau tai strategol pwysig

Mae CCG yn aelod o Bartneriaeth Tai Gwynedd ac wedi cymryd rhan mewn amryw o faterion tai strategol pwysig, fel:

1. Parhau i weithredu'r Gofrestr Tai Cyffredin, Polisi Gosod Cyffredin a Thîm Opsiynau Tai – bu i'r Gofrestr Tai Cyffredin a'r Tîm Opsiynau Tai ddod i rym ym mis Medi 2012. Mae CCG yn pryderu am berfformiad y prosiect yma. Mae angen newid y ffocws er mwyn sicrhau bod y Gofrestr Tai Cyffredin a'r Polisi Gosod Tai Cyffredin yn ein galluogi i greu tenantiaethau cynaliadwy fel y

mae Diwygio Lles a lwfans Tai Lleol yn benodol yn dod i rym. Mae angen diweddaru’r wybodaeth a gaiff cwsmeriaid ar opsiynau tai, mae angen marchnata’r gofrestr a’i fod yn fwy hygyrch fel ei fod yn adlewyrchu’r angen am dai a fydd yn ei dro yn gadael i ni wybod yn lle mae angen adeiladu cartrefi newydd.

2. Digartrefedd - bu i CCG barhau i ddarparu nifer o eiddo i'r Cyngor i gartrefu ymgeiswyr digartref ar sail dros dro i gynorthwyo'r Cyngor gyda'u gofynion statudol. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd gwaith i symud i gytundeb prydles sy’n gwella sut caiff yr eiddo digartrefedd yn eu rheoli. Dros y flwyddyn nesaf, bydd pob eiddo digartrefedd yn cael ei osod ar y gytundeb prydles newydd.

   Mae cytundeb cynhwysfawr wedi ei harwyddo rhwng CCG ‘r Cyngor yn cyflwyno ffyrdd newydd o weithio fel mae Deddf tai (Cymru) 2014 yn ei ofyn.

3. Cyflogaeth leol - ers trosglwyddo, pan gafodd 170 o staff eu symud o dan amodau TUPE o’r Cyngor, mae CCG yn parhau i gyflogi nifer sylweddol o staff gyda 244 wedi eu cyflogi ar ddiwedd Mawrth 2016. Hefyd, mae sawl cyfle cyflogaeth leol arall wedi eu sicrhau drwy raglen fuddsoddi cyfalaf CCG a’n darparwyr gwasanaeth.

4. Darparu Tai Fforddiadwy - mae CCG wedi gwneud cynnydd da yn dod o nifer o gyfleon datblygu i’r amlwg a nawr mae yna fwy o gynrychiolaeth ar Raglen Datblygu wedi ei Gynllunio Cyngor Gwynedd (PDP). Mae hyn wedi golygu bod CCG wedi gallu bod o gymorth i’r Cyngor sicrhau eu bod wedi gwario Grant Tai Cymdeithasol yn llawn ac unrhyw arian oedd wedi llithro a ddaeth i law.

5. Strategaeth Pobl Hŷn –

   i) Mae'r gweddill o'r cynlluniau tai cysgodol yn cael eu hailddatblygu (Cysgod y Coleg - Bala, Bro Llywelyn - Penrhyndeudraeth, Hafan Deg - Abermaw, Pentre Uchaf - Dyffryn Ardudwy) yn dilyn adolygiad tai cysgodol bellach wedi ei gwblhau. Y gwelliannau a wnaed oedd moderneiddio'r fflatiau, ychwanegu lifftiau, ail fodelu fflatiau 1 ystafell wely i 2 ystafell wely, gwell drysau diogelwch a TCC.
   ii) Caiff y gwasanaeth Warden Tai Gwarchod nawr ei ddarparu yn seiliedig ar yr angen ac mae ymgynghoriad wedi digwydd i gynnig y gwasanaeth yn seiliedig ar 8 ardal yn hytrach na’r drefn bresennol. Fodd bynnag, mae peth ansicrwydd am ddyfodol y gwasanaeth oherwydd yr ansicrwydd sy'n parhau am gyllid grant Cefnogi Pobl sy'n cyllido'r gwasanaeth warden tai cysgodol craidd.
   iii) Bu i CCG barhau i gefnogi gwaith y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl gan sicrhau bod cynrychiolwyr Darparwr a Tai Cymdeithasol Cymru ar y pwyllgor cydweithredol yn ymwybodol o anghenion tenantiaid hŷn a bregus CCG.
   iv) Bu i CCG hefyd gymryd rhan yn yr ymgyrch ‘Keep on Supporting People’ i godi proffil gwerth y gwasanaeth y mae CCG wedi parhau i wella gwasanaethau ar gyer tenantiaid hŷn ac anabl.

6. Addasiadau i'r Anabl – Bu i'r Panel Addasiadau ar y cyd gyda'r Cyngor barhau

i gyfarfod yn fisol i sicrhau bod angen tenantiaid a, addasiadau yn cael eu trin mor effeithiol â phosib o fewn yr adnodd sydd ar gael. Mae Polisi Addasiadau newydd wedi ei gyflwyno sy'n sicrhau y defnydd gorau o arian addasiadau a'n eiddo sydd wedi eu haddasu. Drwy weithio gyda Derwen, mae nifer o deuluoedd wedi eu symud i dai sy'n fwy addas ac wedi cael yr addasiadau gofynnol. Mae'r gwaith yma yn lleihau'r pwysau ar deuluoedd gyda plant anabl ac mae'n galluogi'r plant yma wneud yn well yn yr ysgol a'u gwneud yn llai dibynnol ar y gwasanaeth iechyd.

7. Diwygio Lles – Bu i CCG barhau i gyfrannu tuag at y tasglu aml sefydliadol a oedd yn cael ei westeio gan y Cyngor gyda'r bwriad o baratoi pobl Gwynedd am y Diwygio Lles. Mae'r Grŵp bellach wedi newid i'r Tasglu Taclo Tlodi. Bu i CCG gefnogi tenantiaid i geisio am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn oedd yn cael ei weinyddu gan y Cyngor. Mae'r grant hwn wedi cael effaith gadarnhaol ar gynaladwyedd ein tenantiaethau. Mae yna bryder y bydd y galw ar y Taliad Tai yn ôl Disgresiwn yn cynyddu pan gaiff newidiadau pellach i fudd-dal lles ei gyflwyno 9Cap Budd-dal, Cap Lwfans Tai Lleol).

8. Gisda - Mae Gisda bellach yn rheoli un o'r blociau yn Tre'r Gof, Caernarfon. Mae hyn yn rhoi amgylchedd diogel i bobl ifanc sydd wedi bod yn rhan o raglen cefnogaeth ddwys GISDA er mwyn dangos iddynt y gallent gynnal eu tenantiaethau eu hunain. Mae hwn yn gynllun gwerthfawr sy'n gwneud lle i bobl ifanc eraill sydd angen cefnogaeth gyda cael tŷ. Bydd y cap Lwfans Tai Lleol yn effeithio yn ddifrifol ar y cynllun yma os na chaiff darpariaeth ychwanegol ar gyfer tai cefnogol ei gyflwyno.

9. Tai Cefnogol - Mae chwe eiddo ar y gytundeb sydd rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd sy'n ein galluogi i ddefnyddio hen dai wardeiniaid fel tai cefnogol.

## 9.0 Materion gweithredol eraill

9.1 Cefnogi Pobl

Yn ystod 2015/16 bu i CCG weithio'n agos gyda Thîm Cefnogi Pobl Cyngor Gwynedd i gefnogi tenantiaid hŷn a bregus i gynnal eu tenantiaethau.

Mae canmoliaeth i wasanaethau'r Warden, Larwm Cymunedol a'r Gwasanaeth Symudol.
Mae'r gwasanaethau hyn yn cyfrannu at atal digartrefedd ac oedi gyda'r angen am ofal cartref gan arbed arian i dimoedd Digartrefedd a Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor - ynghyd â'r gwasanaeth iechyd.
Mae gan CCG bryder am ddyfodol grant cefnogi pobl sydd wedi ei ddyrannu i CCG oherwydd iddo gael toriad o £30K (9%) yn 2015/16 er na welwyd y toriad pellach o 10% a ragwelwyd ar gyfer 2016/17. Mae ariannu hyn yn y dyfodol yn peri cryn bryder i denantiaid hŷn a bregus CCG sy'n cael budd o'r gwasanaeth cefnogol sydd o gymorth iddynt wella eu sgiliau bywyd a chynnal annibyniaeth.

9.2 Polisi newydd Llywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer Rhent Tai Cymdeithasol

Fel yr adroddwyd y llynedd mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno polisi newydd ar gyfer Rhent Tai Cymdeithasol a gafodd ei gyflwyno ym mis Ebrill 2014. Mae'r polisi

yn gosod band rhent ar gyfer pob Cymdeithas Tai. Rhaid i'r rhent cyfartalog ar gyfer y Gymdeithas fod o fewn y band hwnnw. Mae gan Gymdeithasau ryddid i osod rhent ar gyfer pob eiddo ac er nad yw'r polisi yn nodi yn glir y dylid gosod rhent targed ar gyfer eiddo unigol, mae CCG wedi parhau i gymhwyso egwyddorion ein polisi blaenorol ac wedi pennu rhent targed ar gyfer pob eiddo.

O dan y polisi newydd mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i bennu'r cynydd chwyddiant blynyddol ac maent wedi gosod cap o £2 ar unrhyw gynyddiadau ychwanegol sydd i'w gymhwyso i rent wythnosol er mwyn symud gwir rent tenantiaid unigol i renti targed. Rhaid i godiad rhent cyfartalog fod yn llai na'r MPD (yn seiliedig ar y gyfradd a osodwyd y mis Medi blaenorol) ynghyd â 1.5% ac uchafswm o £2 yr eiddo. Mae cynnig Llywodraeth Cymru i gyfyngu cynnydd chwyddiant i MPD + 1% o 2017/18 ymlaen. Er nad oes cytundeb ffurfiol, os bydd hyn yn digwydd, bydd yn creu problemau sylweddol i CCG oherwydd y lleihad mewn incwm; mae ein cynllun busnes presennol yn gofyn am gynnydd rhent o MPD + 1.5% fel ei fod yn hyfyw.

9.3 Rheoli Casglu Rhent/Incwm

Cyfanswm ôl-ddyledion fel canran o rent casgladwy ar gyfer tenantiaid presennol oedd 1.8% ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16 o'i gymharu â 1.7% ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Mae Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn a phroffil cynyddol pwysigrwydd talu rhent wedi cyfrannu tuag at y perfformiad da hwn.
Mae CCG yn parhau i gefnogi tenantiaid ar gyfer yr effaith ariannol a ragwelir o ganlyniad i Fesurau Lles y Llywodraeth a newidiadau i'r system Budd-dal Tai. Mae monitro effaith Diwygio Lles yn parhau i fod yn flaenoriaeth i CCG nawr bod Diwygio Lles wedi cychwyn ar rai achosion syml yng Ngwynedd. Mae effaith cap Budd-dal Tai sy'n debygol o daro teuluoedd sydd ddim yn gweithio gyda 3 a mwy o blant ac effaith Lwfans Tai Lleol yn bryder mawr i CCG a all effeithio ei hyfywedd ariannol os na ellir amddiffyn incwm rhent.
Mae ymgynghoriad wedi ei gynnal gyda tenantiaid i gyflwyno'r 'Rental Exchange' sy'n helpu tenantiaid sy'n talu eu rhent yn rheolaidd i gael gwell cyfradd credyd yn yr un ffordd ag y mae rhai sy'n talu morgais yn wneud. Bu i tua 70 o denantiaid ofyn nad yw CCG yn rhannu eu gwybodaeth talu sy'n debyg i Gymdeithasau Tai eraill. Mae'r cynllun yma mawr yn y broses o gael ei roi ar waith.
Mae'r datganiad rhent wedi ei ddiweddaru i gynnwys manylion pob dull talu sydd ar gael.

9.4 Eiddo Gwag

Mae perfformiad yn erbyn y dangosydd perfformiad yma yn parhau i fod yn faes sy'n derbyn sylw. Roedd colled rhent oherwydd tai gwag yn 1.9% ar ddiwedd y cyfnod, roedd yn 3.09% y flwyddyn flaenorol.

Mae Strategaeth Eiddo Anodd eu Gosod CCG wedi bod yn effeithiol. O ran eiddo lle nad ydi'r Tîm Opsiynau Tai yn cynnig rhestr aros neu fod y rhestr aros yn wan, yna, bydd yr eiddo yn cael ei hysbysebu drwy gyfrwng cyfryngau cymdeithasol a safleoedd gwe. Y dudalen Eiddo ar Osod yw'r un fwyaf poblogaidd ar ein gwefan gyda thua 1240 o ymweliadau'r mis. Mae posteri hysbysebu yn cael eu cynhyrchu at sylw'r cyhoedd yn swyddfeydd CCG ac mewn digwyddiadau, a gofynnir i gynghorwyr lleol ac ysgolion godi ymwybyddiaeth o'r eiddo sydd ar gael gyda thenantiaid posib.

Mae arwyddion ar osod wedi eu defnyddio hefyd.

Fel ac y mae nifer o eiddo sydd wedi bod yn wag yn hir yn cael eu gosod a SATC a gwaith mawr yn cael ei wneud ar rai eiddo gwag, mae amser troi tai gwag i'w gosod cyfartalog wedi aros yn uchel ar 48.86 diwrnod calendr. Gan fod pob eiddo gwag yn ddrud lle mae angen amser swyddog Gosod a Trwsio, deunyddiau a cholled rhent, byddwn nawr yn canolbwyntio ar greu a chefnogi tenantiaethau fel eu bod yn gynaliadwy. I wneud hyn byddwn yn gweithio i leihau'r nifer o drosglwyddiadau and mae'r un mor bwysig cael cofrestr tai o safon gyda galw cryf am ein cartrefi.

Bydd gwella perfformiad eiddo gwag yn parhau yn faes blaenoriaeth ar gyfer 2016/17 ac mae wedi ei flaenoriaethu fel maes sydd angen sylw gan ein Prosiect Trawsnewid Busnes.

9.5 Adolygu'r gweithlu mewnol (DLO)

Yn dilyn penderfyniad y Bwrdd ym mis Ionawr 2013 i gadw'r gwasanaeth Trwsio, Cynnal a Chadw yn fewnol yn amodol ar gyflwyno cynllun gwella i ddarparu gwasanaeth modern, yn canolbwyntio ar y cwsmer a gwasanaeth cost effeithiol gyda'r prif uchafbwyntiau fel a ganlyn:

- Penodwyd ymgynghorwyr o'r enw Ark a grŵp llywio tenantiaid i gynorthwyo i gyflawni gwelliannau
- Lleihawyd risg corfforaethol fel cydymffurfio ar draws holl ffynonellau gwaith gwresogi (nwy, olew a thanwydd solet).

| Blwyddyn | Tanwydd Soled | Olew | Nwy |
|---|---|---|---|
| 2014-15 | 88.94 % | 96.62 % | 99.18 % |
| 2015-16 | 100.00 % | 100.00 % | 99.97 % |

- Mae perfformiad cywir y tro cyntaf yn gwella gyda pherfformiad o tua 83% o gymharu â 79% yn 2013/14 a 80% yn 2014/15.
- Ym mis Hydref 2015, bu'r gweithlu mewnol yn llwyddiannus a sicrhau tendr i gwblhau gwaith SATC ar dai gwag a chytundebau 'mop-up'. Ers cychwyn y gwaith yma mae'r tîm yn perfformio'n dda gan sicrhau 84% o foddhad ymhlith tenantiaid, 96% o gydymffurfiaeth gyda'r rhaglen, 98% ar Iechyd, Diogelwch, Ansawdd a'r Amgylchedd (IDAA) a 200% ar Hyfforddiant a Datblygu.

Mae mwy o gynlluniau ar waith i wella gwasanaeth yn y flwyddyn nesaf gyda gweledigaeth glir ar sicrhau gwerth am arian a gwella profiad ein cwsmeriaid o'r gwasanaeth.

9.6 Iechyd, Diogelwch, Ansawdd a'r Amgylchedd (IDAA)

Wedi sicrhau achrediad OHSAS 18001, ISO9001 a ISO14001 ar gyfer ein systemau rheoli Iechyd, Diogelwch, Ansawdd a'r Amgylchedd bu i CCG gael ei archwiliad dilyno cyntaf yn ystod y cyfnod a wnaed gan Lloyds Register Quality Assurance; dim ond diffyg cydymffurfio bychain ac arsylwadau a godwyd ganddynt.

9.7 Rheoleiddio a Llywodraethu

9.7.1 Asesiad Rheoleiddiol (ARh)
Mae Rhan 2 y Mesur Tai (Cymru ) 2011 (y Mesur) sy'n ddiwygiad i Ran 1 y Ddeddf Tai 1996 yn rhoi pwerau i Weinidog Cymru reoleiddio LCC yng Nghymru. Mae'r mesur yn rhoi mwy o bwerau rheoleiddiol ac ymyrryd i'r Gweinidog.
Yn fuan yn 2015, bu i Dîm Rheoleiddio Tai Llywodraeth Cymru gynnal Asesiad Rheoleiddiol ar ran Gweinidogion Cymru. Bwriad yr Asesiad Rheoleiddio yw darparu dealltwriaeth i denantiaid, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o ba mor dda rydym yn perfformio, ar amser penodol yn erbyn canlyniadau cyflawni sy'n ymwneud â:

- Gwasanaethau landlord
- Llywodraethu
- Rheolaeth Gyllidol

Cynhaliwyd yr Asesiad Rheoleiddiol yn unol â dull yn seiliedig ar risg tuag at reoleiddio sydd wedi ei nodi yn y 'Fframwaith Rheoleiddio' a chanllawiau cysylltiol '*Improving the implementation of the Regulatory Framework: a risk based approach to regulation*' a '*Sector risks facing housing associations in Wales*'.

Mae'r Rheoleiddiwr yn defnyddio gwybodaeth sydd wedi ei dderbyn drwy gyswllt rheoleiddiol parhaus gyda CCG ynghyd â gwybodaeth sydd wedi ei ddarparu er mwyn creu barn reoleiddiol.

Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol a chasgliadau ym mis Mai 2015 ac mae ar gael ar y wefan, derbyniwyd y casgliadau fel asesiad rhesymol a theg gan y Bwrdd.

Mae'r berthynas gyda'r Rheoleiddiwr yn parhau i fod yn iach a chyswllt rheolaidd wedi ei gynnal yn ystod y flwyddyn ariannol gan ganolbwyntio'n bennaf ar feysydd canlynol;

- Parhau i asesu perfformiad y Bwrdd a monitro cynnydd gyda llenwi seddi gwag
- Sicrhau bod dull rheoli risg yn adlewyrchu risgiau cynyddol a bod y Bwrdd yn deall busnes craidd traddodiadol gan gynnwys datblygiadau newydd
- Cael sicrwydd am welliannau i amser troi tai i'w gosod ac ansawdd cartrefi gwag sy'n barod i'w gosod
- Monitro cyflawni gwerth am arian ar draws y busnes
- Monitro'r math a natur cwynion gan denantiaid a defnyddwyr gwasanaeth CCG
- Cael sicrwydd bod y gwasanaeth trwsio, cynnal a chadw yn effeithiol ac effeithlon.
- Deall ymhellach sut mae tenantiaid a defnyddwyr gwasanaeth eraill yn parhau i gymryd rhan yn siapio a chraffu gwasanaethau yn effeithiol

9.7.2 Dyfarniad Hyfywedd Ariannol
O dan adran 33A Deddf Tai 1996, mae gan y Gweinidog Cymru rym i reoleiddio LCC yng Nghymru o ran darpariaeth tai a materion sy'n ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol. Mae asesiadau rheolaethol a wneir yn dilyn dull o ganolbwyntio ar risg sy'n gwneud dyfarniad ar hyfywedd ariannol y Gymdeithas. Mae'r dyfarniadau yn disgyn i un o'r categorïau canlynol: 'Pasio', 'Pasio gyda monitro rheolaethol agosach'

neu 'Methu'.
Yn dilyn adolygiad Gweinidogion Cymru bu iddynt ddod i'r casgliad ym mis Mai 2106 mai Dyfarniad Hyfywedd Ariannol CCG oedd '**Pasio**', sef y dyfarniad uchaf o'r tri sydd ar gael, a chaiff ei ddiffinio fel:

*"Mae gan y Sefydliad adnoddau digonol i gwrdd â'i ymrwymiadau ariannol busnes sydd wedi ei ragdybio nawr ac yn y dyfodol.*

Eglurwyd dyfarniad y Rheoleiddiwr fel â ganlyn;

- *Mae CCG wedi paratoi rhagamcanion ariannol 30 mlynedd yn rhagdybio set resymol o dybiaethau.*
- *Mae gan CCG ddigon o gyfleusterau benthyca gwarantedig i ariannu'r gwariant a ragwelir ar gynnal a chadw a gwella eiddo, ac mae'n gallu creu digon o incwm i dderbyn ac ad-dalu benthyciadau o'r fath.*
- *Mae rhagamcan 30 mlynedd CCG yn dangos y dylai barhau i weithredu o fewn cyfamodau'r benthyciwr o dan amgylchiadau rhagweladwy rhesymol.*
- *Mae CCG wedi adrodd eu llwyddiant y sicrhau Safon Ansawdd Tai Cymru yn 2015 ac mae wedi defnyddio gwybodaeth arolwg cyflwr stoc i greu costau sydd wedi eu cynnwys yn ei ragamcan 30 mlynedd er mwyn parhau i gwrdd â'r safon yma.*

9.7.3 Aelodaeth Bwrdd CCG
Mae Bwrdd CCG yn cynnwys 12 aelod sef 4 tenant, 4 aelod annibynnol a 4 aelod etholedig o Gyngor Gwynedd. Yn ystod blwyddyn 2015/16:

i) Bu i enwebai Cyngor Gwynedd barhau'n gyson gyda'r flwyddyn flaenorol gyda'r Cynghorwyr Stephen Churchman, Anne Lloyd Jones, Michael Sol Owen a John Wyn Williams yn gwasanaethu ar y Bwrdd.
ii) Bu i'n Cadeirydd Claire Russell Griffiths sefyll i lawr ar ddiwedd mis Mawrth yn dilyn cael ei phenodi i Fwrdd Rheoleiddio Cymru, cymerodd Medwyn Hughes ei lle fel Cadeirydd ac etholwyd Mark Jones yn Is-gadeirydd. Creodd ymadawiad Claire sedd wag ar y Bwrdd i aelod tenant ac ar gychwyn blwyddyn ariannol 2015/16 roedd y sedd yn wag ac mae'r broses recriwtio yn parhau.
iii) Croesawyd dau aelod annibynnol newydd i'r Bwrdd yn dilyn proses recriwtio, mae'r ddau yn dod ag ystod eang o sgiliau a phrofiadau i'r Bwrdd sef Abi Tweed a Mark Jones.

Fel sydd wedi ei nodi yn 3.2 (29) uchod, wrth gynnal adolygiad llawn o'r Strwythur Llywodraethol, crëwyd pwyllgorau newydd sydd wedi eu dylunio i helpu'r gymdeithas wynebu disgwyliadau rheoleiddio a llywodraethol ynghyd ag adlewyrchu ein bod yn newid ein ffocws.

Bu ail ddyrannu Cymdeithasau Tai yn Lloegr o'r sector preifat i'r sector cyhoeddus gan Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2015 annog y Sector Tai yng Nghymru adolygu ei sefyllfa o ystyried y tebygolrwydd y bydd Cymdeithasau Tai yng Nghymru yn cael eu hail ddyrannu mewn ffordd debyg yn ystod 2016. Mae yna oblygiadau sylweddol yn hyn o beth i'r ffordd y mae Cymdeithasau Tai yng Nghymru yn gweithredu, yn benodol rhoi cyfyngiadau ar drefniadau benthyg Cymdeithasau

Tai. Enghraifft syml yw, lle bydd benthyciadau yn cael eu cyfyngu i drefniadau presennol yna ni fydd Cymdeithasau Tai yn gallu cwblhau cymaint o ddatblygiadau ac y maen nhw nawr.

O ganlyniad i hyn, fel pob LSVT arall yng Nghymru, bydd CCG yn edrych ar ei drefniadau aelodaeth Bwrdd yn ystod 2016. Yn benodol y rheolaeth lywodraethol ar ein gweithgareddau drwy gael 4 enwebai o’r Cyngor ar ein Bwrdd sy’n cyfrannu at ail ddyrniad ONS bod Cymdeithasau Tai yn rhan o’r sector cyhoeddus yn hytrach na chyrff preifat.

9.8 Rheoli Perfformiad

Mae’r system rheoli perfformiad a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2014 wedi ei fewnblannu yn y busnes a chafodd perfformiad ein holl staff ei werthuso ar system ar lein sy'n cael ei alw yn "Cynllun Llwyddo". Gosodwyd amcanion personol ar gyfer pob unigolyn ar gyfer y 12 mis nesaf, a chafodd eu hymddygiad ei werthuso yn erbyn y cymwyseddau corfforaethol. Cafodd adolygiad 6 mis ei gynnal ym mis Medi i sicrhau fod perfformiad ar y trywydd cywir. Roedd cyfradd cwblhau'r gwerthusiadau ar draws CCG yn 90%.

9.9 Rheoli Rhaglen

Mae CCG wedi cyflwyno yn llwyddiannus nifer o brosiectau o bwys strategol a chorfforaethol yn ystod 2015/16 o dan y rhaglen Rheoli Perfformiad.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mewnblannu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar draws y Sefydliad
- Gwella profiadau ein cwsmeriaid wrth iddynt ymdrin â CCG
- Datblygu a rhoi strategaeth adeiladu o’r newydd ar waith
- Cyflawni Strategaeth Gwerth am Arian
- Rheoli mesurau lliniaru mewn ymateb i'r Diwygio Lles

Mae CCG wedi parhau i wreiddio dull rheoli rhaglen i reoli ei agenda trawsnewid sefydliad yn effeithiol. Mae'r dull hwn wedi bod yn llwyddiannus i gyflawni sawl prosiect ar amser a sicrhau bod yna adnoddau digonol ar gyfer gwneud hynny.

9.10 Gofal Cwsmer

Mae gwell profiad cwsmer ar draws holl wasanaethau CCG wedi parhau yn flaenoriaeth gorfforaethol. Roedd yn galonogol gweld felly bod canlyniad Holiadur Boddhad Tenantiaid 2015 yn dangos gwelliant yn lefelau perfformio cyffredinol; roedd 77% yn fodlon gyda gwasanaethau CCG o gymharu â 71% yn y flwyddyn flaenorol (2014).

Cymeradwywyd y Strategaeth Gofal Cwsmer gan ein Bwrdd a bydd yn cael ei roi ar waith yn ystod y flwyddyn hon. Amcan y strategaeth yw gwella gofal cwsmer a gwella lefelau boddhad ymhlith ein tenantiaid.

9.11 Rheoli Tir

Mae CCG yn berchen ac yn rheoli dros 3,000,000 m² o asedau tir dros 517 o safleoedd. Mae'r asedau yn rhai amrywiol o ran eu natur a maint ac yn cynnwys coedwigoedd, rhostir, tir prysg, cronfa ddŵr/llynnoedd, afonydd, tir pori a chaeau pêl droed ac mae cyfran uchel o'r ased wedi ei leoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Pen Llŷn.

Er mwyn sicrhau bod y safleoedd hyn yn cael ei rheoli yn briodol gan gynnwys cyfyngu atebolrwydd bosib ar CCG, bydd Strategaeth Rheoli Tir a Strategaeth Gwaredu Tir adolygedig yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd i'w cymeradwyo yn ystod 2016.

9.12 Perthynas gyda Chyngor Gwynedd i'r dyfodol

Wedi cwblhau addewidion y ddogfen gynnig a nawr bellach yn edrych ar gyfleon i dyfu yn naturiol mae CCG yn symud i gamau newydd o'i ddatblygiad. Bydd ein perthynas gyda'r Cyngor hefyd yn datblygu yn ystod y cyfnod yma gan adeiladu ar y sylfaen gadarn sy'n bodoli'n barod. Mae angen deialog pellach i gytuno ar yr union fanylion, ond rhagwelir:

1. Bydd angen newid trefniadau ar gyfer monitro a chraffu gweithgareddau CCG a symud tuag at fodel tebyg i'r un a ddefnyddir ar gyfer Cymdeithasau Tai eraill yng Ngwynedd.
2. Yng ngoleuni ailddyrannu Cymdeithasau Tai yn Lloegr gan yr ONS a'r tebygrwydd y bydd yr un peth yn digwydd yng Nghymru yn ystod 2016, bydd angen trafodaeth ar enwebai'r Cyngor ar Fwrdd CCG.

## 10.0 Casgliad

Yn chweched flwyddyn CCG gwelwyd cwblhau rhaglen SATC bum mlynedd. Bu i wariant SATC a buddsoddi ar welliannau leihau i £9.0m (gan gynnwys gwaith amgylcheddol) o gymharu â £27.8m yn y flwyddyn flaenorol gyda £1.7m ychwanegol yn cael ei wario ar adeiladu cartrefi newydd.

Lleihawyd nifer y staff yn ystod y flwyddyn o 272 i 244 (ffigwr 31 Mawrth 2016) oherwydd cwblhau rhaglen SATC ar gyfer y bum mlynedd gyntaf a llai o waith ei angen ar gynnal stoc CCG i SATC wrth symud ymlaen.

Mae'n hynod o braf nodi, er gwaethaf y lleihad yn y gwaith buddsoddi, mae nifer uchel o hyfforddai a phobl un ai yn byw yng Ngwynedd neu o fewn yr ardaloedd cyfagos yn parhau i gael eu cyflogi gan CCG a'i Ddarparwyr Gwasanaeth.

Mae hefyd yn braf cael nodi'r gwelliant ym moddhad tenantiaid gyda gwasanaethau CCG. Bydd gwella profiad y cwsmer o CCG yn parhau i dderbyn sylw gan y busnes yn ystod 2016/17 gyda llawer iawn o ymdrech yn cael ei wneud i wella ein Gwasanaeth Trwsio.

Mae CCG yn hynod o falch o ganlyniadau asesiad annibynnol o'n hasesiad effaith economaidd, cymdeithasol, iechyd a lle yn seiliedig ar weithgareddau CCG yn ystod ein 5 mlynedd gyntaf a wnaed gan Public and Corporate Economic Consultants (PACEC). Roedd y darganfyddiadau yn gadarnhaol iawn gyda buddsoddiad CCG wedi ei dargedu yn cyfrannu tuag at leihau anghydraddoldebau iechyd yng Ngwynedd.

Yn ystod 2016, y bwriad yw trafod canlyniadau adroddiad PACEC ymhellach i bennu unrhyw newid yng nghyfeiriad strategol CCG.

## 11.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Cyngor gytuno yn ffurfiol bod CCG wedi cwblhau pob addewid o wnaed i denantiaid yn y Ddogfen Gynnig.